

SOSIALAETH

1. Rhagymadrodd: cyflwyno Sosialaeth
2. Gwreiddiau Sosialaeth
3. Ffrydiau Sosialaidd
 - a. Sosialaeth Iwtopaidd
 - b. Marcsiaeth
 - i. Beirniadaeth ar gyfalafiaeth
 - ii. Y dehongliad materol o hanes
 - iii. Y Chwyldro a Chomiwnyddiaeth
 - iv. Marcsiaeth wedi Marx
 - c. Democratiaeth Gymdeithasol
4. Elfennau allweddol Sosialaeth
 - a. Cymuned
 - b. Cydweithrediad
 - c. Cydraddoldeb cymdeithasol
 - d. Gwleidyddiaeth dosbarth
 - e. Rheolaeth gyffredin
5. Cymharu dulliau Sosialwyr; sut i gyrchu'r gymdeithas well?
 - a. Sosialaeth chwyldroadol
 - b. Graddoliaeth a'r llwybr seneddol
6. Sosialaeth a chyfalafiaeth: dymchwel ynteu ddiwygio?
 - a. Comiwnyddol
 - b. Diwygio a ffrwyno cyfalafiaeth
7. Sosialaeth yng ngwleidyddiaeth Cymru
 - a. Robert Owen
 - b. Y Blaid Lafur a ffrydiau sosialaidd yng Nghymru
 - c. Aneurin Bevan
 - d. Raymond Williams a sosialaeth Plaid Cymru
 - e. Sosialaeth ers datganoli
8. Sosialaeth a gwleidyddiaeth fyd-eang
 - a. Marcsiaeth
 - b. Democratiaeth gymdeithasol

SOSIALAETH

1. Rhagymadrodd: cyflwyno Sosialaeth

Cydnabyddir y Cymro, Robert Owen, fel un o'r sosialwyr cyntaf. Yn 1800 sefydlodd ef gymuned gydweithredol yn New Lanark, ger Glasgow, ac yn ystod y blynyddoedd canlynol cyhoeddodd nifer o ysgrifau a ystyrir heddiw yn ddogfennau allweddol o safbwynt gosod seiliau sosialaeth. Yn ystod yr un cyfnod, cafwyd cyfraniadau pwysig gan feddylwyr o Ffrainc fel Charles Fourier a Saint-Simon, ac at ei gilydd, ystyrir safbwyntiau'r garfan gynnar hon fel **Sosialaeth Iwtopaidd**.

Serch hynny, nid enw a fathwyd ar y pryd gan y meddylwyr eu hunain oedd hwn, ond yn hytrach enw a ddaeth yn boblogaidd ar sail beirniadaeth ddiweddarach **Karl Marx a Friedrich Engels** o waith ffigurau fel Owen, Fourier a Simon. Beirniadodd y ddau eu ruagflaenwyr sosialaidd fel 'iwtopiaid' diniwed – carfan a oedd yn dyheu am newid cymdeithasol, heb allu cynnig unrhyw amlinelliad credadwy o sut y gellid sicrhau'r newid hwnnw. Cyferbynwyd hyn â'r dadansoddiad 'gwyddonol' manwl a ddatblygwyd ganddynt yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg o'r llwybr anochel tuag at chwyldro a chwymp cyfalafiaeth. Cyhoeddwyd, er enghraifft, yr ysgrif enwog 'Y Maniffesto Comiwnyddol' yn galw ar weithwyr y byd i uno, ond gweithiau aeddfed Marx – yn enwedig *Das Kapital* – a gyflwynodd y feirniadaeth fwyaf trylwyr o'r system gyfalafol. Er na lwyddodd syniadau Marx i ddenu dilynwyr eang o blith sosialwyr yn ystod ei oes ei hun, yn dilyn ei farwolaeth yn 1883 datblygodd **Marcisiaeth** i fod yn athroniaeth o'r pwys mwyaf. Yn Rwsia cafodd y syniadau eu harddel a'u datblygu gan **Lenin**, arweinydd y chwyldro comiwnyddol cyntaf yn 1917, ac yn dilyn hynny arweinydd cyntaf yr Undeb Sofietaidd. Eto i gyd, yn ystod yr un cyfnod datblygodd ffrydiau sosialaidd eraill, llai radical, fel **Democratiaeth Gymdeithasol** ar sail gwaith unigolion fel **Eduard Bernstein**, a oedd yn eu hanfod yn gwrthod natur chwyldroadol Marcisiaeth.

Mae sosialaeth felly'n ideoleg sydd wedi cwmpasu ystod o ffrydiau gwahanol. Fodd bynnag mae modd adnabod rhai elfennau allweddol sydd wedi tueddu i nodweddu syniadau sosialaidd fel teulu o syniadau cyffelyb. O bwys mawr yn hanes y traddodiad mae cysyniadau fel **Cymuned, Cydweithrediad, Cyfiawnder Cymdeithasol, Gwleidyddiaeth Dosbarth a Rheolaeth Gyffredin**. Er hyn, mae rhai materion pwysig wedi esgor ar anghydweld rhwng aelodau gwahanol ffrydiau sosialaidd. I ddechrau ceir pwnc pa fath o ddulliau y dylai sosialwyr eu defnyddio er mwyn cyrchu'r gymdeithas well. Ar y naill law, mae'r sosialwyr hynny sydd wedi arddel dehongliadau Marx wedi pwysleisio'r angen am **chwyldro** ac wedi derbyn bod hyn yn golygu bod defnyddio trais yn anochel. Ar y llaw arall, mae sosialwyr mwy cymedrol sydd wedi arddel ffurfiau ar ddemocratiaeth gymdeithasol wedi pledio achos **graddoliaeth** a rhinweddau'r **llwybr seneddol**. Dyma safbwynt sydd yn cynnig bod sosialaeth yn y bôn yn ddatblygiad o hanfodion rhyddfrydiaeth, i'r lliaws, ac sydd yn gallu ymestyn hawliau, cydraddoldeb a safon byw ddymunol i'r mwyaf trwy system ddemocrataidd gyflawn.

Mater arall sy'n esgor ar anghydweld yw'r math o *amcanion* y dylai sosialwyr eu cyrchu – mewn geiriau eraill pa fath o gymdeithas ddylai'r un sosialaidd fod, ac yn arbennig pa fath o drefniadau economaidd ddylai nodweddu'r gymdeithas honno. Yn y cyswllt hwn, mae Marcswyr wedi mynnu bod yn rhaid dymchwel cyfalafiaeth gan sefydlu **cymdeithas gomiwnyddol** amgen ble ceir **rheolaeth gyffredin o'r moddion cynhyrchu – sef yr adnoddau, offer a pheiriannau sydd yn creu nwyddau**. Fodd bynnag, tuedda'r democratiaid cymdeithasol i ddadlau bod

SOSIALAETH

modd ffrwyno cyfalafiaeth a sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol trwy arddel **economi cymysg** a thrwy gynnal gwladwriaeth les hael sy'n **aiddosbarthu cyfoeth**.

Wrth gwrs mae sosialaeth wedi dylanwadu'n helaeth ar **wleidyddiaeth yng Nghymru**, yn arbennig dros y ganrif ddiwethaf. Mae'r dylanwad hwn i'w weld nid yn unig wrth ystyried dominyddiaeth etholiadol y Blaid Lafur, ond hefyd wrth ystyried hynt pleidiau a mudiadau eraill. O safbwynt **gwleidyddiaeth fyd-eang** gwelir mai Marcsaeth sydd wedi bod yn fwyaf dylanwadol: ar y naill law trwy gynnig sail i ddatblygiad grymoedd gwleidyddol mawr, yr Undeb Sofietaidd a China yn bennaf, ac ar y llaw arall trwy gynnig sail i ddatblygiad safbwynt dadansoddol beirniadol sy'n dehongli'r system ryngwladol fel mynegiant o gyfalafiaeth.

2. Gwreiddiau Sosialaeth

Ar y cyfan, y farn ymhlith ysgolheigion yw mai ideoleg wleidyddol a ddatblygodd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw sosialaeth. Fodd bynnag, gellir olrhain gwreiddiau'r syniadaeth yn ôl ymhell cyn hynny. Er enghraifft, yn nhyb rhai, gwelir syniadau o anian sosialaidd ar waith yn nisgrifiad y Testament Newydd o fywyd y Cristnogion cynnar. Mae eraill yn tynnu sylw at ddadleuon o natur sosialaidd yng ngwaith meddylwyr fel Thomas More (1478-1535) neu hyd yn oed Platon (428-347 C.C.). Eto i gyd, er bod cydnabod y cefndir hwn yn bwysig, ni ellir hawlio bod corff cydlynol a hunanymwybodol o syniadau sosialaidd i'w ganfod yn y gweithiau cynnar hyn – yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg y daeth hyn i'r amlwg. Yn nhyb yr athronydd gwleidyddol, Andrew Vincent (Vincent 1995: 88), gellir cyfeirio at ddau ddigwyddiad pwysig a gyfrannodd at ddatblygu syniadau sosialaidd yn ystod y cyfnod hwn: y Chwyldro Ffrengig a'r Chwyldro Diwydiannol

Arweiniodd y Chwyldro Ffrengig yn 1789 at ddymchwel yr hen drefn frenhinol absoliwt a sefydlu yn ei lle weriniaeth newydd oedd yn seiliedig ar egwyddorion blaengar, fel rhyddid, cydraddoldeb a brawdoliaeth (*liberté, égalité, fraternité*). Yn achos Sosialaeth, tybir bod arwyddocâd y Chwyldro yn Ffrainc yn deillio o'r ffaith iddo ddangos bod modd i bobl geisio trawsnewid cymdeithas er gwell: bod modd mynd ati trwy gyfrwng gweithgaredd cymdeithasol a gwleidyddol radicalaidd i ddileu hen sefydliadau a threfniadau ac yn eu lle adeiladu cymdeithas fwy teg a chyfartal. Ymhellach, gellir dadlau bod y mudiad Jacobin a oedd yn cael ei ysbrydoli gan waith athronwyr fel Jean-Jacques Rousseau a Gabriel Bonnot de Mably wedi dechrau rhoi mynegiant i ddadleuon a fyddai'n datblygu i fod yn rhai allweddol ymhlith sosialwyr. Er enghraifft, roedd y Jacobiniaid yn feirniadol iawn o oblygiadau perchnogaeth breifat ar eiddo a'r modd yr oedd cyfoeth wedi cael ei gronni yn nwylo lleiafrif bach ac ar sail hyn dadleuwyd o blaid mesurau a fyddai'n hwyluso ailddosbarthu tir, cydberchnogaeth a chyd-gynhyrchu.

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau yn Ffrainc yn ystod yr 1790au, gellid ystyried y Chwyldro Diwydiannol, a'r modd yr arweiniodd at greu'r economi cyfalafol modern, fel sbardun pellach (ac o bosib pwysicach) i ddatblygiad syniadau sosialaidd. O'i gychwyn ym Mhrydain yn ystod ail hanner y ddeunawfed ganrif, arweiniodd y Chwyldro Diwydiannol at newidiadau cymdeithasol ac economaidd sylfaenol ar draws Ewrop. Am y tro cyntaf, datblygwyd diwydiannau mawrion a gwelwyd symudiad poblogaeth anferthol o'r wlad i'r dref. Fodd bynnag, esgorodd newidiadau o'r fath ar amgylchiadau byw a gwaith anodd dros ben i aelodau'r dosbarth gweithiol newydd. Golygai polisïau economaidd *laissez-faire* y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fod gan gyflogwyr y rhyddid i osod cyflogau ac i drefnu amodau gwaith fel y mynnent. O ganlyniad, tueddai cyflogau i fod yn isel. Ar ben hynny, tueddai'r diwrnod gwaith i fod yn hir iawn (hyd at 12 awr), roedd defnyddio plant yn y gweithle'n gyffredin ac roedd perygl anafiadau a diweithdra'n gysgodion parhaol. Dros amser, arweiniodd y caledi a'r tloidi enbyd a oedd yn nodweddu bywyd y dosbarth gweithiol at amheuaeth gynyddol o rinweddau'r gymdeithas gyfalafol fodern. O ganlyniad, erbyn y 1820au a'r 1830au roedd amryw o feddylwyr gwleidyddol – hynny yw, y sosialwyr cynnar – yn dechrau meddwl am ffyrdd amgen o drefnu cymdeithas a'r economi.

3. Ffrydiau Sosialaidd

Tra bo cred yn yr angen i drawsnewid cymdeithas, a hynny ar sail egwyddorion fel cydraddoldeb a chydweithrediad, yn tueddu i nodweddu dadleuon bron pob sosialydd, mae'n bwysig cofio na cheir un ffurf swyddogol ar sosialaeth. Yn hytrach, dros y blynyddoedd datblygodd ystod o ffrydiau sosialaidd gwahanol. Isod cyflwynir rhai o'r ffrydiau mwyaf dylanwadol: Sosialaeth Iwtopaidd, Marcsiaeth a Democratiaeth Gymdeithasol.

3.1 Sosialaeth Iwtopaidd

Gellir canfod yr ymgais gyntaf i gynnig amlinelliad o hanfodion y byd-olwg sosialaidd yng ngwaith carfan a adnabyddir bellach fel y Sosialwyr Iwtopaidd. Roedd y garfan hon yn rhagflaenwyr i Karl Marx ac yn weithgar yn ystod y 1800au cynnar. Fe'u sbardunwyd i drafod ac ysgrifennu gan ymwybyddiaeth gynyddol o'r amgylchiadau anffodus a oedd yn nodweddu bywyd y dosbarth gweithiol newydd yn sgil natur y gymdeithas gyfalafol fodern. Yn wir, mae'n arbennig o bwysig ein bod ni fel Cymry yn treulio amser yn ystyried cyfraniad y garfan hon o sosialwyr cynnar, gan mai Cymro – Robert Owen o'r Drenwydd (1771-1858) – oedd un o'r ffigurau amlycaf. Nid oedd Owen yn ystyried ei hun yn ysgolhaig pur, nac yn feddyliwr gwleidyddol systematig chwaith. Perchennog melinau gwlan mawr yn New Lanark yn ne'r Alban ydoedd. Ond, trwy ei brofiad yn y maes hwn, yn goruchwyllo gwaith miloedd o weithwyr cyffredin, datblygodd ei ddiddordeb mewn materion cymdeithasol a gwleidyddol.

Daeth Owen i'r casgliad fod cymeriad a galluoedd pobl yn cael eu siapio drwyddi draw gan eu hamgylchiadau cymdeithasol. Dyma syniad newydd ar y pryd. Golygai fod Owen yn herio'r gred gonfensiynol fod nifer o'r cyflyrau anffodus a oedd yn nodweddu bywyd gweithwyr y cyfnod – anwybodaeth, tlodi, afiechyd, trosedd ac ati – yn ganlyniadau anochel o'r modd yr oedd y bobl hyn yn dewis byw eu bywydau. Ar y pryd y duedd oedd cymryd yn ganiataol mai bai'r gweithwyr eu hunain oedd eu hamgylchiadau anffodus. Fodd bynnag, yn hytrach na derbyn y casgliad arferol hwn, dadleuodd Owen fod y cyflyrau anffodus a oedd yn nodweddu bywyd cymaint o bobl yn deillio o amgylchiadau cymdeithasol anffodus – hynny yw, yr amgylchiadau a oedd yn nodweddu'r gymdeithas gyfalafol fodern. Fel amryw o'i gyfoeswyr sosialaidd – e.e. y Ffrancwyr Charles Fourier (1772-1837) a Saint-Simon (1760-1825) – dadleuodd Owen y gellid dileu'r tlodi a'r dioddefaint a oedd yn nodweddu bywyd y cyfnod, trwy drefnu cymdeithas mewn ffordd amgen. Arweiniodd hyn at gyhoeddiadau fel *A New View of Society* (1816), a oedd yn disgrifio natur y gymdeithas iwtopaidd – cymdeithas sosialaidd a fyddai'n seiliedig ar gydweithio a chariad. Yn wir, un o'r pethau hynod am waith Owen oedd manylder ei ddisgrifiadau o natur y gymdeithas ddelfrydol. Aeth mor bell â thrafod gwisg y bobl, ynghyd â phatrymau cenedlu!

Nodwedd arall o waith Owen a'r sosialwyr cynnar oedd eu cred – ffydd, hyd yn oed – mewn rhesymoliaeth. Credwyd y byddai nerth eu dadleuon yn sicr o ennill y dydd, gan ddwyn perswâd ar lywodraethau a chyfalafwyr grymus i gyflwyno sosialaeth yn wirfoddol. Wrth gwrs, dyma safbwynt sydd bellach yn ymddangos yn anobeithiol o naif. Yn wir, maes o law beirniadwyd y naifrwydd hwn yn hallt gan Karl Marx a'i gyfaill Friedrich Engels. Parhaont ddiystyru rhagflaenwyr fel Owen yn 'iwtopiaid' – carfan a oedd yn deisyfu newid cymdeithasol, ond yn

SOSIALAETH

methu â chynnig unrhyw amlinelliad credadwy o sut y gellid sicrhau'r newid hwnnw. Cyferbynwyd safbwynt iwtopaidd eu rhagflaenwyr gyda'u dehongliad 'gwyddonol' o'r llwybr anochel tuag at chwyldro a chwmp cyfalafiaeth (gweler isod). Er y feirniadaeth hon, mae'n bwysig nodi bod cryn debygrwydd rhwng rhai o ddadleuon Robert Owen ynglŷn â natur y gymdeithas ddelfrydol, a'r dadleuon a gyflwynwyd maes o law gan Karl Marx, er enghraifft ar faterion fel perchnogaeth gymunedol o'r dulliau cynhyrchu a'r angen i ddosbarthu nwyddau ar sail angen. Yn wir, bron y gellid disgrifio cymdeithas ddelfrydol Owen fel ffurf gynnar ar Gomiwnyddiaeth.

3.2 Marcsiaeth

Un enw sy'n sicr o godi wrth drafod sosialaeth yw Karl Marx. Heb os, mae Marx yn ffigur cwbl allweddol o fewn y traddodiad sosialaidd. Ni ellir astudio'r ideoleg heb fynd i'r afael â'i syniadau mewn rhyw fodd. Ni ellir chwaith drafod syniadau Marx heb nodi dylanwad a phwysigrwydd ei gyfeillgarwch deallusol gyda'r Almaenwr arall, Friedrich Engels, a gyfarfu a Marx yn 1844 ac a ddylanwadodd arno yn y lle cyntaf gyda'i waith *The Condition of the Working Class in England*. Dyma lyfr a ysgrifennwyd yn Almaeneg a chyfieithwyd i'r Saesneg yn 1885 ac a gafodd cydnabyddiaeth fel clasur o lyfr – un oedd yn cyfleu dioddefaint y bobl a'r ffaith i'w bywydau waethygu yn y gymdeithas gyfalafol. Parhaodd y berthynas rhwng y ddau hyd eu hoes.

3.2.1 Beirniadaeth ar gyfalafiaeth

Beirniadaeth ar y gymdeithas gyfalafol fodern yw gwaith Karl Marx yn bennaf. I ddeall natur y feirniadaeth hon rhaid dechrau trwy ystyried ei drafodaeth o'r cysyniad o ymddieithrio. Datblygwyd y drafodaeth hon gan Marx yn Llawysgrifau Paris, casgliad o ysgrifau a luniwyd ganddo yn 1844 (ond na chyhoeddwyd tan 1932). Yn ôl Marx, un o'r prif newidiadau a ddeilliodd o dwf cyfalafiaeth oedd y newid a welwyd mewn arferion llafur (h.y. gwaith) pobl. Roedd llafur yn elfen hollbwysig i Marx. Dyma, yn ei dyb ef, sy'n rhyddhau pobl ac yn ein gwahaniaethu oddi wrth anifeiliaid. Trwy ein llafur rydym yn mynd ati i ddatblygu sgiliau a thalentau, ynghyd â dealltwriaeth o'r byd. Ymhellach, mae llafur yn caniatáu i berson arddangos ei allu i gynllunio ac yna i weithredu yn unol â'r cynlluniau hyn. Nid yw'r rhain yn rhinweddau sy'n perthyn i'r anifail – ymddwyn yn reddfodol a wna ef, heb unrhyw gynllunio bwriadus. Fodd bynnag, sylwodd Marx fod dyfodiad cyfalafiaeth wedi arwain at newid sylfaenol yn natur llafur y dosbarth gweithiol. Nid oedd bellach yn weithgaredd a oedd yn caniatáu i'r gweithiwr fynegi ei ddynoliaeth. I'r gwrthwyneb, mae cyfalafiaeth yn arwain at ymddieithrio aelodau'r dosbarth gweithiol.

I ddechrau, caiff y gweithiwr eu hymddieithrio o gynnyrch eu llafur. Nid gweithio er mwyn ateb anghenion bywyd penodol yn ôl yr angen a wnânt bellach, ond yn hytrach gweithio i gynhyrchu nwyddau amhersonol sydd i'w gwerthu am elw. Yn ogystal, caiff y gweithiwr ei ymddieithrio o'r broses o lafurio. O dan gyfalafiaeth, yn hytrach na gweithio yn ôl ei drefniadau ei hun, mae'n gorfod gweithio yn ôl cyfarwyddiadau ac amserlen rheolwyr a goruchwylwyr. Ymhellach, nid yw'r trefniadau gwaith hyn yn rhai cymdeithasol iawn ac felly caiff y gweithiwr ei ymddieithrio oddi wrth ei gydweithiwr. Yn olaf, mae patrymau gwaith cyfalafol yn arwain at ymddieithrio'r gweithiwr

oddi wrtho'i hun. Yn hytrach na bod yn weithgaredd sy'n caniatáu iddo fynegi ei ddynoliaeth a'i ryddid, mae llafur y gweithiwr yn troi'n ddim mwy na nwydd – rhywbeth a gaiff ei werthu ganddo er mwyn ennill cyflog.

Tra bo'r cysyniad o ymddieithrio'n cael cryn sylw yng ngweithiau cynnar Marx, erbyn rhai o'i weithiau diweddarach – *Das Kapital*, er enghraifft – nid yw'r cysyniad o ymddieithrio'n cael cymaint o sylw. Yn hytrach gwelir Marx rhoi mwy o bwyslais ar duedd cyfalafiaeth i hybu gwrthdaro dosbarth ac i ecsploetio. Yn nhyb Marx, mae cyfalafiaeth yn drefn sy'n arwain at rannu cymdeithas yn ddau brif ddsbarth – y *bourgeoisie* (y perchnogion) a'r *proletariat* (y gweithwyr) – a mynna ei bod yn anochel y bydd yr ail ddsbarth hwn yn cael ei ecsploetio gan y cyntaf. Deillia hyn o'r ffaith mai'r *bourgeoisie* yw'r ddsbarth sy'n berchen ar 'foddion cynhyrchu' – yn syml, y gweithfeydd a hefyd yr holl offer a ddefnyddir gan aelodau'r *proletariat* i wneud eu gwaith. Yn ogystal, y *bourgeoisie* fydd yn berchen ar yr holl nwyddau a fydd yn deillio o lafur y *proletariat* a nhw hefyd fydd yn medru hawlio'r holl elw a ddeillia o werthu'r nwyddau hynny. Yn nhyb Marx mae hyn yn arwain at berthynas rhwng y *bourgeoisie* a'r *proletariat* sy'n seiliedig ar ecsploetio anochel. Er mwyn i'r *bourgeoisie* fedru gwneud elw ar sail y nwyddau a gynhyrchwyd gan ddefnyddio eu gweithfeydd a'u hadnoddau, bydd angen i aelodau'r *proletariat* dreulio cyfnod bob wythnos yn gweithio'n ddi-dâl. Wedi'r cyfan, all y *bourgeoisie* ond sicrhau elw i'w hunain drwy dalu cyflog i'w gweithwyr sy'n llai na gwir werth eu llafur. Pe bai'n talu gwerth llawn eu llafur iddynt, yna fyddai dim arian ar ôl i gael ei fancio fel elw. Mynnodd Marx bod ecsploetio o'r math hwn yn rhan hanfodol o ddull gweithredu'r economi cyfalafol ac y byddai'n parhau pa mor flaengar neu oleuedig bynnag fyddai'r cyflogwyr.

Gwelir felly beth oedd rhai o brif feirniadaethau Marx o natur y drefn gyfalafol. Dyma drefn sydd, ar y naill law, yn rhwym o arwain at ymddieithrio'r gweithiwr o'i wir natur, tra ar y llaw arall, yn cymhell y perchnogion i ecsploetio'r sawl a gyflogir ganddynt mewn modd systematig.

3.2.2 Y dehongliad materol o hanes

Eto i gyd, nid dim ond beirniadu cyfalafiaeth a wnaeth Marx. Aeth ati hefyd i egluro pam, yn ei dyb ef, ei bod yn drefn a fyddai'n sicr o chwalu yn y pen draw, ynghyd â sut y byddai hynny'n digwydd. Seiliodd Marx y dadleuon hyn ar ei ddull arbennig o ddehongli ac egluro newid hanesyddol a chymdeithasol. Cyfeirir at y dull hwn fel y *dehongliad materol o hanes*.

Roedd y dehongliad materol hwn yn rhannu cymdeithas yn ddwy ran. I ddechrau, ceid y *sylyfaen economaidd*. Fel yr awgryma'r enw, dyma derm a ddefnyddid i gyfeirio at drefniadau economaidd y gymdeithas, ac yn benodol, y moddion cynhyrchu (yr offer a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu nwyddau) a'r perthnasau cynhyrchu (sut y trefnwyd llafur er mwyn defnyddio'r moddion cynhyrchu). Ar ben y sylyfaen economaidd, roedd yr *uwchstrwythur*. Dyma derm a ddefnyddiwyd i gyfeirio at agweddau eraill o fywyd, gan gynnwys meysydd fel gwleidyddiaeth, y gyfraith, crefydd, diwylliant a chelf. O'r ddwy ran hon, y gyntaf – y sylyfaen economaidd – oedd fwyaf dylanwadol yn nhyb Marx. Dadleuodd bod natur y trefniadau economaidd a geid mewn unrhyw gymdeithas yn sicr o ddylanwadu ar bob rhan arall o fywyd y

SOSIALAETH

gymdeithas honno – ei gwleidyddiaeth, ei chyfreithiau a'i diwylliant. Yr economi felly yw sail cymdeithas.

Felly, os yw'r economi mor sylfaenol i bopeth, onid yw'n dilyn yn naturiol y bydd unrhyw newid arwyddocaol yn nhrefniadau'r economi yn arwain at newid pellgyrhaeddol i natur y gymdeithas yn gyffredinol? Dyna'n sicr oedd casgliad Marx. Dadleuodd bod ei astudiaethau hanesyddol gofalus – er enghraifft mewn cyfrolau fel *Deutsche Ideologie* (1846) – wedi dangos mai newid i strwythur gwaelodol yr economi sydd, dros amser, wedi bod yn gyfrifol am symud cymdeithas o un cyfnod hanesyddol i'r llall – er enghraifft y symudiad o'r cyfnod ffiwdal i'r cyfnod cyfalafol modern a nodweddiwyd gan ddulliau newydd o gynhyrchu a hefyd gan drefniadau gwaith newydd.

Ond, dros hanes, beth sydd wedi achosi'r newidiadau economaidd hyn a esgorodd ar newid cymdeithasol ehangach? Yn nhyb Marx, y cysyniad allweddol i egluro hyn yw'r *dilechdid* (dialectic), sef proses barhaol o ryngweithio rhwng grymoedd cyferbyniol sydd, dros amser, yn creu gwrthdaro, ac yn sgil hynny, yn sbarduno newidiadau cymdeithasol pellgyrhaeddol. Yn hyn o beth, roedd Marx yn dilyn Hegel. Eto i gyd, pwysleisio rôl gwrthdaro ym myd syniadau a wnâi Hegel, er enghraifft y gwrthdaro rhwng rheswm ac ofergoeliaeth Gristnogol. Yn ei dyb ef, gwrthdaro syniadol o'r math hwn oedd yn gyrru newid hanesyddol a chymdeithasol. Fodd bynnag, gan fod Marx yn pwysleisio dylanwad y sail economaidd, tueddai ef i bwysleisio'r gwrthdaro materol a oedd yn amlygu ei hun ar y lefel hon. Yn wir, dadleuodd fod pob cyfnod hanesyddol wedi'i seilio ar drefniadau economaidd sydd wedi'u nodweddu gan densiwn neu wrthdaro sylfaenol. Er enghraifft, nodweddiwyd y cyfnod ffiwdal gan wrthdaro sylfaenol rhwng buddiannau economaidd y meistri a'r taeogion. Yn y pen draw, golyga'r broses o newid dilechdidol y bydd y gwrthdaro hwn yn cyrraedd uchafbwynt ac, o ganlyniad, esgorir ar drefniadau economaidd newydd, ac yn sgil hynny, ar uwchstrwythur cymdeithasol newydd hefyd.

Nid yw'r cyfnod cyfalafol yn ddim gwahanol, yn ôl Marx, i gyfnodau hanesyddol cynt. Fel y gwelwyd eisoes, nodweddiwyd trefniadau economaidd y gymdeithas gyfalafol gan wrthdaro sylfaenol rhwng buddiannau'r ddau brif ddsbarth – y *bourgeoisie* a'r *proletariat*. Mae meddiant y dosbarth cyntaf ar y moddion cynhyrchu, a hefyd ei angen i ddefnyddio'r moddion hyn i greu elw, yn arwain at ecsploetio'r ail ddsbarth – aelodau'r proletariat. Gan fod y fath densiwnau'n bodoli o dan gyfalafiaeth, tybiai Marx fod cwmp y ffurf hon ar gymdeithas yr un mor anochel ag yr oedd cwmp ffurfiau cymdeithasol cynt.

Gwelir felly beth oedd natur y dehongliad materol o hanes, y dehongliad hanesyddol a ddefnyddiodd Marx i geisio egluro pam fod cwmp cyfalafiaeth, yn ei dyb ef, yn anochel. Nodweddiwyd y dehongliad hwn gan bwyslais ar y modd yr oedd yr economi'n dylanwadu ar siâp gweddill cymdeithas. O ganlyniad, mynnai Marx y dylid dehongli unrhyw newid hanesyddol a chymdeithasol yn bennaf fel proses o newid economaidd a gâi ei gyrru gan wrthdaro rhwng buddiannau gwahanol garfanau neu ddsbarthiadau cymdeithasol.

3.2.3 Y Chwyldro a Chomiwnyddiaeth

Y tu hwnt i egluro pam ei fod yn credu bod cwmp cyfalafiaeth yn anochel, aeth Marx ati hefyd i geisio manylu ar sut fyddai hyn yn digwydd. Mae rhai o'r syniadau hyn i'w canfod yn y *Maniffesto Comiwnyddol* a gyhoeddwyd yn 1848.

Roedd Marx yn barod i gydnabod bod cyfalafiaeth, ac yn enwedig y datblygiadau o ran technoleg a dulliau cynhyrchu a gysylltir â'r drefn, wedi esgor ar gynnydd sylweddol yng ngalluoedd dyn. Golygai bod y gallu materol gennym bellach i ddileu'r tlodi a'r angen a oedd yn nodweddu sefyllfa cymaint o bobl. Fodd bynnag, roedd natur y drefn gyfalafol yn milwrio yn erbyn hyn. Cofier, hanfod y broses gynhyrchu o dan gyfalafiaeth oedd bod adnoddau a llafur yn cael eu defnyddio i gynhyrchu elw yn hytrach na diwallu anghenion cymdeithasol – elw a lifai i bocedi un garfan yn benodol, sef y bourgeoisie. O ganlyniad, dros amser, byddai'r gwrthdaro sylfaenol a fodolai rhwng buddiannau'r dosbarth gweithiol a'r bourgeoisie ond yn dwysáu ymhellach. Yn y pen draw, tybiai Marx y byddai'r dosbarth gweithiol – a oedd yn crynhoi ar lawr y ffatrioedd – yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o'u safle gorthrymedig o dan gyfalafiaeth – ymwybyddiaeth ddosbarth – a phan fyddai'r ymwybyddiaeth hon yn cyrraedd uchafbwynt byddai aelodau'r dosbarth gweithiol yn gwrthryfela yn erbyn y drefn.

Yn ogystal, tynnodd Marx sylw at y nodweddion cyfalafol eraill a fyddai'n hybu deffroad y dosbarth gweithiol ymhellach. I ddechrau, tynnodd sylw at natur gwbl ansefydlog cyfalafiaeth. O dan gyfalafiaeth roedd tuedd gan yr economi i dyfu a thyfu cyn cwmpo'n sydyn gan achosi dirwasgiadau mawr a fyddai'n arwain at arafu'r broses gynhyrchu ac at ddiweithdra cynyddol. Wrth gwrs, mewn cyfnodau o'r fath, y dosbarth gweithiol a fyddai'n dioddef fwyaf. Ar ben hynny, pwysleisiodd fod cyfalafiaeth yn drefn sy'n tueddu i grynhoi grym a chyfoeth yn nwylo llai a llai o bobl. Er enghraifft, rydym yn parhau i glywed yn gyson am duedd rhai cwmnïau mawr i brynu amryw o rai bach gan olygu bod rhannau helaeth o'r economi'n dod dan reolaeth llond dwrn o bobl. Canlyniad hyn, yn nhyb Marx, fyddai cynyddu'r niferoedd a berthynai i'r dosbarth gweithiol gan bwysleisio ymhellach annhegwch diffyg atebolrwydd y drefn gyfalafol. Yn y pen draw, byddai'r holl ffactorau uchod yn dod ynghyd, a'r canlyniad fyddai fod y dosbarth gweithiol yn arwain chwyldro i ddymchwel cyfalafiaeth. Nid chwyldro gwleidyddol cyffredin sydd ond yn arwain at ddisodli'r llywodraeth a'r sawl sy'n dal grym fyddai hwn. Yn hytrach, byddai'n chwyldro cyflawn, a fyddai'n arwain at sefydlu trefn wleidyddol, gymdeithasol ac economaidd gwbl newydd: comiwnyddiaeth.

Ar y cyfan, digon bras yw'r manylion a geir gan Marx ynglŷn ag union natur y chwyldro hwn a hefyd natur y gymdeithas gomiwnyddol a ddaw yn ei sgil. Fodd bynnag, mae rhai pwyntiau pendant yn cael ei gwneud ganddo. I ddechrau, cam cwbl sylfaenol yn ei dyb ef yw sefydlu unbennaeth y proletariat yn gynnar yn ystod y chwyldro. Golyga hyn fod y dosbarth gweithiol yn cipio grym i'w hunain. Yn nhyb Marx, bydd angen unbennaeth o'r fath yn ystod y cyfnod cynnar er mwyn sicrhau nad yw'r bourgeoisie yn adrefnu gan danseilio'r chwyldro a hefyd er mwyn sicrhau bod y broses o sefydlu comiwnyddiaeth yn mynd rhagddo'n llwyddiannus. Wrth sefydlu comiwnyddiaeth un o'r camau cyntaf hollbwysig, fydd dileu perchnogaeth breifat o'r moddion cynhyrchu – hynny yw, yr adnoddau economaidd hynny a fu gynt yn eiddo i'r bourgeoisie ac yn sail i'w grym. Yn hytrach na pharhau fel asedau preifat i gyfalafwyr unigol, bydd yr adnoddau

hyn yn cael eu trosglwyddo i ddwylo'r bobl yn gyffredinol. Trwy wneud hynny, gellir sicrhau bod y broses o gynhyrchu a dosbarthu nwyddau yn troi o fod yn un sy'n seiliedig ar y nod o wneud elw i unigolion i fod yn un sy'n anelu i ateb gwir anghenion cymdeithasol. Wrth i'r broses hon fynd yn rhagddi, bydd y gwahaniaethau dosbarth a nodwedddai'r gymdeithas gyfalafol yn diflannu'n raddol ac yn y pen draw fe fydd yr angen am wladwriaeth hefyd yn diflannu.

3.2.4 Marcsiaeth wedi Marx

Bu farw Marx yn 1883. Fodd bynnag, ni ddaeth datblygiad syniadau Marcsaidd i ben gyda marw Marx ei hun. Parhaodd ei olynwyr i'w trafod gan addasu arnynt ac ychwanegu atynt. Dyma nodi rhai cyfraniadau pwysig

- **Vladimir Ilich Lenin (1870-1924):** Dadleuodd Lenin na ddylai Marcswyr gymryd yn ganiataol fod cwmp cyfalafiaeth yn gwbl anochel ac y byddai aelodau'r dosbarth gweithiol yn codi i arwain y chwyldro. Dadleuodd nad oedd y dosbarth gweithiol ar ei ben ei hun yn meddu ar yr ymwybyddiaeth wleidyddol angenrheidiol er mwyn sbarduno ac arwain chwyldro o'r fath. O ganlyniad rhaid oedd wrth garfan flaengar o chwyldroadwyr a fyddai'n gweithredu fel *vanguard* ar ran y dosbarth gweithiol. Rôl y garfan hon oedd ymsefydlu fel plaid wleidyddol – nid plaid ag iddi aelodaeth dorfol eang ond yn hytrach carfan ddethol o chwyldroadwyr proffesiynol ac ymroddedig a oedd â'r gallu i gynnig arweiniad gwleidyddol ac ideolegol i eraill. O ganlyniad pan fu i blaid Folsiefaidd Lenin gipio grym yn Rwsia yn 1917, hawliwyd eu bod yn gwneud hynny yn enw buddiannau'r dosbarth gweithiol ar draws y wlad.
- **Mao Zedong (1893-1976) a Ho Chi Minh (1890-1969):** Ysbrydolwyd Mao a Ho Chi Minh ill dau gan Farcsiaeth a'r ideoleg Leniniaeth-Farcsaidd a ddatblygodd trwy ddehongliad Lenin o'r traddodiad. Fel yn achos Lenin rhoddodd y ddau yr ideoleg ar waith yn eu gwledydd hwythau mewn ffurf ymosodol, chwyldroadol. Yn achos Mao – a ddaeth i rym yn China gyda'r Blaid Gomiwnyddol yn 1949 wedi ugain mlynedd o frwydro – datblygodd agweddau ar syniadaeth Farcsaidd oedd yn deillio o brofiad ac amgylchiadau'r wlad. Er i Lenin ei ysbrydoli, yn enwedig yn y frwydr wrth-Imperialaidd, mae gwahaniaethau diddorol yn ei safbwynt, yn arbennig yn ei ffocws ar gefn gwlad a'r gymuned werinol. Gwelodd dyndra sylweddol rhwng y trefol a gwledig, ar y lefel wladol a rhyngwladol, gyda'r byd gorllewinol cyfalafol yn gormesu'r gwleidydd annatblygedig. Iddo ef, felly, roedd y werin yn chwarae rhan hanfodol yn y frwydr gomiwnyddol oherwydd eu diffyg buddsoddiad yn y system gyfalafol, ac yn ymarferol trwy ryfela guerrilla, Yn hynny o beth roedd yn gwadu syniad Lenin o'r *Vanguard* ac yn hytrach pwysleisio'r angen am undod a 'llynell dorfol' ymysg y lliaws. Syniadau nid annhebyg sydd yn nodweddiadol o Ho Chi Minh, arweinydd mudiad annibyniaeth y Viet Minh a oedd yn Brif Weinidog ar Weriniaeth Ddemocrataidd Vietnam pan y'i sefydlwyd yn 1945. Y gymuned werinol oedd conglfaen y chwyldro comiwnyddol, fel rhan o'r mudiad cenedlaethol a oedd yn brwydro am ryddid yn erbyn grymoedd Imperialaidd.
- **Antonio Gramsci (1891-1937):** Ac yntau'n aelod seneddol etholedig ac yn Ysgrifennydd Cyffredinol ar Blaid Gomiwnyddol newydd yr Eidal, carcharwyd Gramsci yn 1926 gan

Mussolini, ac yno y bu hyd ei farwolaeth. Mewn casgliad o ysgrifau enwog a luniwyd ganddo yn ystod ei gyfnod dan glo, dadleuodd Gramsci o blaid ailystyried y pwyslais traddodiadol ymhlith Marcswyr ar ddylanwad ffactorau economaidd a materol. Trwy gyflwyno'r cysyniad o hegemoni, amlinellodd sut roedd grym a statws y dosbarth bourgeois yn ddibynol ar ddominyddiaeth syniadol ac ideolegol, yn gymaint â'i dominyddiaeth economaidd. Y ddominyddiaeth ideolegol hon oedd yn caniatáu i gyfalafiaeth gael ei chyflwyno fel yr unig ffurf bosib ar gyfer cymdeithas – yr unig 'synnwyr cyffredin'. O ganlyniad, dadleuodd Gramsci bod angen i Farcswyr ymgymryd â brwydr syniadol er mwyn creu hegemoni amgen nad oedd yn seiliedig ar dybiaethau materol ac ariangar bourgeois.

- **Herbert Marcuse (1898-1979):** Erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif, roedd Marcswyr yn y gorllewin yn gweld bod angen edrych eto ar syniadau eu rhagflaenwyr gan geisio egluro pam, er gwaethaf proffwyddoliaethau Marx, fod cyfalafiaeth yn parhau'n gymharol sefydlog a'r dosbarth gweithiol yn dangos dim awch chwyldroadol. Un o'r rhai a aeth ati i wneud hyn oedd Herbert Marcuse. Ateb Marcuse oedd casglu na ddylid cymryd yn ganiataol mai'r dosbarth gweithiol oedd y garfan chwyldroadol. Roedd y blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd yn rhai o lewyrch cymharol ac o ganlyniad tybiodd Marcuse fod aelodau'r dosbarth gweithiol wedi'u cyfaddawdu wrth iddynt fabwysiadu meddylfryd a gwerthoedd y dosbarth canol. O ganlyniad, dadleuodd y dylai Marcswyr droi i ystyried sefyllfa grwpiau 'ymylol' a 'gorthrymedig' eraill, er enghraifft merched, grwpiau ethnig, myfyrwyr neu drigolion y trydydd byd.

3.3 Democratiaeth Gymdeithasol

Mae ystyr y term Democratiaeth Gymdeithasol wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd. Yn wreiddiol, yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ystyriwyd ef fel term a oedd yn gyfystyr â Marcsiaeth – hynny yw, roedd disgrifio eich hun fel democrat cymdeithasol yn awgrymu cefnogaeth i ddadleuon Karl Marx. Er enghraifft, pan aethpwyd ati i sefydlu pleidiau gwleidyddol er mwyn lledaenu Marcsiaeth – fel a wnaed yn yr Almaen yn 1875 ac yn Rwsia yn 1898 – tueddwyd i'w galw yn bleidiau Democrataidd Cymdeithasol.

Eto i gyd, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn sicr erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd arwyddocâd y term yn dechrau newid. Dechreuodd y sawl a oedd yn glynu at ddehongliadau Marx arddel y term comiwnyddiaeth. Pwysleisiwyd y newid cywair hwn yn 1918, pan benderfynodd y Bolsieficiaid yn Rwsia y dylid ailenwi Plaid Lafur Ddemocrataidd Gymdeithasol Rwsia yn Blaid Gomiwnyddol yr Undeb Sofietaidd. Yn dilyn hyn, penderfynodd nifer o'r pleidiau a'r mudiadau hynny a oedd yn gefnogol i'r Bolsieficiaid, ac a oedd yn glynu at ddehongliadau Marx, alw eu hunain yn gomiwnyddion hefyd. Gyda hyn, daethpwyd i gysylltu'r term democratiaeth gymdeithasol â ffrwd llawer mwy cymedrol o sosialaeth. A siarad yn gyffredinol, roedd bellach yn cyfeirio at garfan a oedd yn amheus o hygredd dadleuon Marx ac yn gweld yr angen i'w hadolygu.

Ffigur allweddol yn natblygiad Democratiaeth Gymdeithasol fel ffrwd sosialaidd amgen oedd yr Almaenwr, Eduard Bernstein (1850-1932). Mae'r ffaith i Bernstein gyfrannu mewn modd

SOSIALAETH

sylweddol i'r symudiad hwn yn arwyddocaol. Roedd yn un o gyn-ddisgyblion Marx, ac yn wir, fe'i penodwyd i ofalu am bapurau Marx wedi ei farwolaeth yn 1883. Er hyn, dros amser daeth Bernstein yn fwyfwy amheus o hygredded dadleuon Marx ac mewn cyfrolau fel *Evolutionary Socialism* (1898) aeth ati i amlinellu ei fyd-olwg amgen.

I ddechrau mynegodd Bernstein amheuan ynglŷn â'r duedd Farcsaidd i bwysleisio'r angen am chwyldro. Deilliodd yr amheuan hyn o rai o'r newidiadau cymdeithasol a gwleidyddol a welwyd yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. I ddechrau, yn ystod y cyfnod hwn aeth y dosbarth gweithiol ati i sefydlu amrediad o sefydliadau pwysig – clybiau gweithwyr, undebau llafur a phleidiau gwleidyddol – a fyddai'n cyfrannu at warchod a dyrchafu eu buddiannau. Yn ogystal, cyfrannodd sefydliadau o'r fath at greu ymdeimlad cryfach o berthyn ac o undeb ymhlith aelodau'r dosbarth gweithiol. Ar ben hynny, ac efallai'n bwysicach, yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd ehangu sylweddol ar yr etholfraint, gan olygu bod nifer cynyddol o'r dosbarth gweithiol yn meddu ar yr hawl i bleidleisio. Er enghraifft, ym Mhrydain, estynnwyd yr hawl i nifer cyfyng o weithwyr yn 1867 ac ehangwyd ar hyn yn 1884. Yna erbyn 1918 estynnwyd yr hawl i ddynion yn gyffredinol a hefyd i nifer cyfyng o ferched. At ei gilydd, arweiniodd y newidiadau hyn at sefyllfa ble roedd gan y dosbarth gweithiol lais gwleidyddol tipyn cryfach na chynt, ac yn sgil hynny roedd hi'n debygol y câi'u buddiannau fwy o sylw. Yn nhyb Bernstein, roedd newidiadau o'r fath yn golygu nad oedd modd cynnal y ddadl Farcsaidd o blaid yr angen am chwyldro treisgar.

Roedd yr ehangu a fu ar yr etholfraint, yn enwedig, yn cynnig llwybr newydd i'r dosbarth gweithiol – bellach roedd modd i sosialaeth fod yn achos a gâi'i hyrwyddo'n raddol trwy gyfrwng y broses ddemocrataidd.

Yn ail, dadleuodd Bernstein fod profiad o fywyd yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg hefyd wedi tanseilio hygredded rhai o ddadleuon Marx ynglŷn â natur yr economi cyfalafol, ynghyd â chwymp anochel y drefn honno. Mynnodd Bernstein fod cyfalafiaeth wedi datblygu i fod yn drefn llawer mwy sefydlog a hyblyg nag y tybiwyd yn wreiddiol. Honnodd Marx fod cyfalafiaeth yn drefn a fyddai'n arwain at dlodi parhaol a chynyddol ymhlith y dosbarth gweithiol. Fodd bynnag, o tua 1870 ymlaen gwelwyd cynnydd graddol mewn cyflogau a safonau byw ar draws nifer o wledydd gorllewinol. Yn arwyddocaol, ac yn gwbl groes i broffwydoliaethau Marx, roedd hwn yn gynnydd a estynnai i bob dosbarth cymdeithasol ac nid dim ond rhai aelodau cefnog o'r dosbarth bourgeois. Yn ogystal, yn ystod y blynyddoedd hyn, datblygodd cyfalafiaeth yn drefn llawer mwy cymhleth ac amlweddog. Roedd Marx wedi mynnu y byddai twf cyfalafiaeth yn arwain at Gronni cyfoeth a chyfalaf yn nwylo llai a llai o unigolion. Fodd bynnag, yn gwbl groes i hyn, yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd ehangu sylweddol ar y meddiant o gyfoeth. Un o'r ffactorau arweiniodd at hyn oedd y twf a fu mewn cwmnïau ble cai perchnogaeth ei rannu rhwng amryw o gyfranddalwyr, yn hytrach nag un diwydiannwr pwerus. Ar ben hynny, ni welwyd y math o bolareiddio cymdeithasol rhwng y proletariat a'r bourgeois a gafodd ei ddarogan gan Marx. Yn hytrach, yn sgil newidiadau o fewn y farchnad lafur, cyflogwyd mwy a mwy o bobl mewn meysydd proffesiynol (gweision sifil, athrawon, cyfreithwyr ac ati), gan esgor ar garfan gymdeithasol newydd – y dosbarth canol – nad oedd yn perthyn i'r proletariat na'r bourgeoisie.

SOSIALAETH

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, dadleuodd Bernstein nad oedd y disgrifiad Marcsaidd o gyfalafiaeth – trefn a nodweddwyd gan ecploetio economaidd amrwd ynghyd â gwrthdaro di-baid rhwng y dosbarthiadau – yn un a oedd bellach yn dal dŵr. Roedd yn drefn a oedd wedi addasu ac felly gellid codi cwestiynau ynglŷn â'r angen i'w dymchwel yn llwyr. O ystyried hyn, nid yw'n syndod fod democrataid cymdeithasol yr ugeinfed ganrif, er enghraifft aelodau Plaid Ddemocrataidd Gymdeithasol yr Almaen, Plaid Lafur y Deyrnas Unedig neu Blaid Sosialaidd yr Eidal, wedi mabwysiadu amcanion cymdeithasol a gwleidyddol tipyn mwy cyfyng. Yn hytrach na sôn am ddymchwel cyfalafiaeth yn llwyr, tueddwyd i roi'r pwyslais ar yr angen i'w ffrwyno a'i ddiwygio trwy fabwysiadu polisïau tebyg i'r canlynol:

- **Yr Economi Cymysg:** Dyma drefniant economaidd sy'n sefyll hanner ffordd rhwng cyfalafiaeth farchnadol cwbl rydd a pherchnogaeth gyhoeddus o bob agwedd o'r economi. Mae democrataid cymdeithasol wedi tueddu i gydnabod bod gan y farchnad rydd ei lle. O ganlyniad, dadleuwyd y dylid cyfyngu mesurau sy'n sefydlu perchnogaeth gyhoeddus i feysydd penodol – uchelfannau'r economi fel trydan, glo, dur a'r rheilffyrdd – tra bo gweddill yr economi'n parhau mewn perchnogaeth breifat.
- **Rheoli Economaidd:** Tra bo democrataid cymdeithasol yn derbyn bod gan gyfalafiaeth ei rhinweddau, maent hefyd yn gweld angen i'w reoleiddio er mwyn sicrhau twf economaidd cyson a gwarchod rhag cyfnodau o ddiweithdra neu chwyddiant sydyn. Golyga hyn bod democrataid cymdeithasol fel rhyddfrydwyr modern wedi dadlau o blaid polisïau macro-economaidd Keynesaidd sy'n defnyddio gwariant cyhoeddus a threthiant er mwyn rheoleiddio cyfalafiaeth.
- **Gwladwriaeth Les:** Dyma'r dull a ffafir gan ddemocrataid cymdeithasol er mwyn ceisio dofi'r anghyfartaledd all godi o dan gyfalafiaeth. Trwy'r wladwriaeth les – sefydliadau fel y drefn addysg, y gwasanaeth iechyd, y drefn fudd-daliadau – gall y wladwriaeth ail-ddosbarthu cyfoeth a chyfleoedd, gan geisio sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws cymdeithas a lleihau tlodi.

Yn y cyfnod rhwng tua 1945 a'r 1970au cynnar tybiodd nifer bod y math o syniadau a gâi eu harddel gan ddemocrataid cymdeithasol – syniadau a oedd yn gorgyffwrdd yn helaeth ag elfennau o ryddfrydiaeth fodern – wedi dod i gynrychioli'r 'synnwyr cyffredin' gwleidyddol ar draws y mwyafrif o wladwriaethau'r gorllewin. Eto i gyd, roedd hwn yn gyfnod o dwf economaidd cyson, diweithdra isel a chwyddiant isel ac o ganlyniad roedd modd i wladwriaethau ariannu darpariaethau lles mwyfwy hael. Fodd bynnag, arweiniodd dirwasgiad mawr y 1970au at argyfwng i'r sawl oedd yn arddel democrataeth gymdeithasol. Ar y naill law, arweiniodd at gynnydd mawr yn y galw am ddarpariaethau lles y wladwriaeth wrth i ddiweithdra godi, ond, ar yr y llaw arall, rhoddodd bwysau ar allu'r wladwriaeth i ariannu rhaglenni o'r fath (gan fod llai o bobl yn gweithio ac felly'n methu â thalu trethi). Wrth iddynt wynebu'r fath sialensiau, datblygodd dadlau chwyrn rhwng gwahanol ddemocrataid cymdeithasol – gyda rhai'n mynnu y dylid blaenoriaethu'r dasg o sicrhau effeithlonrwydd economaidd gan leihau chwyddiant a thorri trethi, ac eraill yn hawlio y dylid ymrwymo i warchod y tlawd a'r anghenus trwy gynnal ac ehangu darpariaethau lles allweddol – a chreodd hyn y gwagle gwleidyddol a alluogodd i ddadleuon gwahanol iawn y Dde Newydd ddechrau ennill tir.

4.0 Elfennau allweddol Sosialaeth

Er y gwahaniaethau pwysig a geir rhwng gwahanol ffrydiau Sosialaidd, gellir nodi rhai elfennau neu themâu cyffredin sy'n tueddu i nodweddu'r byd-olwg Sosialaidd; elfennau sy'n caniatáu i ni wahaniaethu rhywfaint rhwng Sosialaeth ac ideolegau gwleidyddol eraill, yn arbennig Rhyddfrydiaeth neu Geidwadaeth.

4.1 Cymuned

Elfen greiddiol i sosialwyr o bob math yw'r dybiaeth fod bodau dynol yn creaduriaid cymdeithasol. Golyga hyn eu bod yn credu bod gennym y gallu i gydweithio'n effeithiol gydag eraill, a hynny er mwyn cyrchu amcanion cyffredin. Nid creaduriaid a fydd yn blaenoriaethu ein buddiannau personol ar bob cyfrif mohonom, yn nhyb sosialwyr. Deillia hyn o'r ffaith nad yw'r un ohonom yn byw ein bywydau mewn gwagle ac yn gwbl hunangynhaliol. Yn hytrach, rydym oll wedi ein gwreiddio o fewn unedau mwy – hynny yw, yn aelodau o gymunedau – ac yn aml iawn rydym yn gwbl ddibynnol ar y cysylltiadau a'r gefnogaeth sy'n deillio o hyn.

Ymhellach, mae arwyddocâd y cyd-destun cymunedol i'w weld yn y ffaith bod sosialwyr, yn wahanol i nifer o ryddfrydwyr neu geidwadwyr, yn ymwrthod â'r awgrym bod pobl yn meddu ar natur gynhenid na ellir mo'i newid – hynny yw, ein bod oll, o ran natur, naill ai'n creaduriaid da neu ddrwg. Yn hytrach, yn nhyb sosialwyr, mae'r natur ddynol yn rhywbeth hyblyg a fydd yn cael ei siapio ar sail yr amgylchiadau a'r profiadau y bydd pobl yn eu hwynebu yn ystod eu bywydau. O ganlyniad, nid yw ein cymeriad a'n galluoedd yn bethau sydd wedi'u ragosod cyn i ni gael ein geni. Maent, yn hytrach, yn bethau y byddwn yn eu meithrin a'u dysgu o fewn cyd-destun cymdeithasol penodol.

4.2 Cydweithrediad

Gan eu bod yn dehongli bodau dynol fel creaduriaid cymdeithasol, mae sosialwyr wedi tueddu hefyd i bwysleisio rhinweddau cydweithio. Iddyn nhw, mae hwyluso cydweithio rhwng unigolion yn llawer mwy llesol na chystadlu. Bydd creu cystadleuaeth yn annog unigolion i herio'i gilydd ac yn sgil hynny yn cymell ymddygiad hunanol ac ymosodol ac yn tanseilio ein rhinweddau cymdeithasol. Fodd bynnag, trwy annog aelodau cymdeithas i gydweithio â'i gilydd gellir eu hannog i ddatblygu'r gallu i gydymdeimlo, ymddiried a gofalu am ei gilydd. Ymhellach, bydd cydweithio'n caniatáu i alluoedd ac egni'r gymuned gyfan gael ei sianelu i'r un cyfeiriad, yn hytrach na bod unigolion gwahanol oll yn mynd ar draws ei gilydd.

4.3 Cydraddoldeb cymdeithasol

Yr ymrwymiad cryf i gydraddoldeb yw un o brif nodweddion sosialaeth – iddyn nhw, dyma'r egwyddor wleidyddol bwysicaf, heb os. Ymhellach, y duedd ymhlith sosialwyr yw arddel y syniad o gydraddoldeb cymdeithasol neu gydraddoldeb canlyniad, yn hytrach na'r syniad mwy cyfyngedig o gyfle cyfartal a gaiff ei arddel gan ryddfrydwyr. Yn nhyb sosialwyr mae'r ffurf fwy pellgyrhaeddol hon ar gydraddoldeb yn hanfodol os am sicrhau cyfiawnder. Yn wahanol i ryddfrydwyr, nid yw sosialwyr yn barod i dderbyn bod modd cyfiawnhau anghydraddoldeb o ran cyfoeth o fewn cymdeithas ar sail y ffaith bod unigolion oll yn wahanol, ac yn meddu ar alluoedd a hefyd diddordebau gwahanol. Nid yw sosialwyr yn gwadu bodolaeth gwahaniaethau pwysig

SOSIALAETH

ymhlith aelodau cymdeithas ac nid ydynt yn mynnu y dylid trefnu fod pawb yn meddu ar union yr un talentau a sgiliau. Er enghraifft, ni fyddai'r gymdeithas sosialaidd yn un ble byddai angen sicrhau bod pob myfyriwr yn ennill yr un graddau yn eu harholiadau lefel A. Fodd bynnag, cred sosialwyr bod yr achosion mwyaf amlwg ac eithafol o anghydraddoldeb (e.e. gwahaniaethau sylweddol o ran incwm, lefelau iechyd a safon byw) yn deillio o driniaeth gymdeithasol anffafriol, ac ni ellir eu diystyru trwy gyfeirio at rai o'r gwahaniaethau o ran sgiliau a geir rhwng unigolion.

Yn ogystal, mae sosialwyr yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd cydraddoldeb, gan ei fod, yn eu tyb hwy, yn angenrheidiol er mwyn cynnal cymunedau sefydlog, ble mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng yr aelodau. Os yw pobl yn byw gyda'i gilydd mewn cymdeithas gyfartal, yna byddant yn fwy tebygol o uniaethu â'i gilydd a gweithio ar y cyd er mwyn hybu lles pawb. O ganlyniad, yn nhyb sosialwyr, mae cydraddoldeb yn meithrin ymdeimlad o gydsafiad (*solidarity*) cymdeithasol.

4.4 Gwleidyddiaeth dosbarth

Mae sosialwyr wedi tueddu i drin dosbarth cymdeithasol fel y rhaniad gwleidyddol mwyaf arwyddocaol a geir o fewn cymdeithas. Mae dosbarth yn thema sy'n dod i'r amlwg mewn gwaith sosialaidd mewn dwy ffordd wahanol. I ddechrau, caiff dosbarth ei drin fel cysyniad dadansoddol. Y duedd ymhlith sosialwyr fu i ddehongli cymdeithas fel casgliad o ddsbarthiadau gwahanol gyda phob dosbarth yn dwyn ynghyd pobl sy'n rhannu'r un statws economaidd. Bydd aelodau pob dosbarth wedyn yn tueddu i uniaethu â'i gilydd ac i rannu'r un math o fyd-olwg. O ganlyniad, yn nhyb sosialwyr, dosbarthiadau, yn hytrach nag unigolion, yw'r actorion allweddol o fewn cymdeithas, a deall hynt y dosbarthiadau hyn yw'r allwedd er mwyn deall unrhyw newid cymdeithasol neu wleidyddol. Mae'r gred hon i'w gweld yn fwyaf amlwg yn namcaniaethau hanesyddol Karl Marx, ble honnir fod esblygiad hanes yn ganlyniad i gyfres o wrthdrawiadau rhwng gwahanol ddsbarthiadau cymdeithasol. Yn ail, mae sosialaeth yn aml yn cael ei drin fel ideoleg sy'n cynnig amddiffyniad o fuddiannau un dosbarth cymdeithasol yn benodol, sef y dosbarth gweithiol. Dyma'r dosbarth sy'n dioddef ecsploetio a gorthrwm parhaol yn sgil natur y gyfundrefn gyfalafol fodern, ond, ar yr un pryd, dyma'r dosbarth sydd â'r potensial i arwain y ffordd tuag at y gymdeithas sosialaidd well.

Er y pwyslais cyson ar wleidyddiaeth dosbarth, mae'n bwysig nodi nad yw sosialwyr yn tybio bod dosbarth yn nodwedd gymdeithasol barhaol a digyfnwid. Wedi'r cyfan, i nifer o sosialwyr, yn enwedig y sawl sydd wedi arddel ffurfiau ar Farcisiaeth, y gobaith, yn y pen draw, yw y bydd modd cyrraedd cyfnod ble bydd anghydraddoldeb economaidd yn diflannu a ffiniau dosbarth yn peidio â bod.

4.5 Rheolaeth gyffredin

I lawer o sosialwyr, gwraidd yr anghydraddoldeb a'r cystadlu niweidiol a geir o fewn cymdeithas yw'r berchnogaeth ar eiddo preifat. Yn y cyswllt hwn, yr hyn sydd dan sylw gan sosialwyr yw'r eiddo hwnnw y gellir ei drin fel 'cyfalaf' neu 'asedau' ac y gellir ei ddefnyddio er mwyn cynhyrchu mwy o gyfoeth. Dylid nodi nad yw'r feirniadaeth sosialaidd ar eiddo preifat yn ymestyn i ymwrthod â'r syniad bod unigolion yn gallu bod yn berchen ar eitemau personol, fel cartref, dillad, eitemau hamdden neu deganau.

SOSIALAETH

Mae'r niwed cymdeithasol sy'n deillio o fodolaeth eiddo preifat yn cwmpasu sawl agwedd. I ddechrau, mynnir bod perchnogaeth breifat ar eiddo yn creu anghyfiawnder: gan fod cynhyrchu cyfoeth wastad yn dibynnu ar ymdrech gydweithredol gan ystod eang o bobl, dylai'r cyfoeth hwnnw fod yn eiddo i'r gymuned gyfan yn hytrach na rhai unigolion dethol. Yn ail, honnir bod eiddo preifat yn niweidio ein hymdeimlad o foesoldeb trwy gymell pobl i feddwl mewn termau materol ac i dybio bod hapusrwydd yn ddibynnol ar gywain cymaint o gyfoeth â phosib. Yn drydydd, dadleuir bod eiddo preifat yn arwain at rannu cymdeithas ac yn cymell gwrthdaro, er enghraifft rhwng y gweithwyr a'r cyflogwyr neu rhwng y cyfoethog a'r tlawd.

O ganlyniad, mae sosialwyr wedi dadlau y dylid diddymu'r syniad o eiddo preifat trwy sefydlu rheolaeth gyffredin o unrhyw gyfalaf y gellir ei ddefnyddio er mwyn cynhyrchu cyfoeth. I rai, er enghraifft Marcswyr chwyldroadol, dylid ymdrechu i ddiddymu cyfalaf preifat yn gyfan gwbl fel rhan o'r broses o sefydlu comiwnyddiaeth. Mae democrataid cymdeithasol hefyd wedi dadlau o blaid y syniad o sefydlu rheolaeth gyffredin. Fodd bynnag, tueddwyd i ffafrio gwneud hynny mewn ystod gyfyngedig o feysydd yn unig, er enghraifft yn achos rhai diwydiannau allweddol fel glo, dur, trydan a nwy – yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'uchelfannau' yr economi.

5.0 Cymharu dulliau Sosialwyr: sut i gyrchu'r gymdeithas well?

Tra bo modd rhestru ystod o elfennau allweddol sy'n tueddu i nodweddu gwaith sosialaidd o bob math, gellir hefyd nodi ystod o wahaniaethau pwysig. Mae dau fater yn arbennig wedi esgor ar gryn wahaniaeth barn rhwng aelodau gwahanol ffrydiau sosialaidd. I ddechrau mae'r mater o ba fath o ddulliau y dylai sosialwyr eu defnyddio er mwyn gyrchu'r gymdeithas well. Yn ail, mae'r mater o ba fath o amcanion y dylai sosialwyr eu gyrchu – mewn geiriau eraill, pa fath o gymdeithas ddylai'r un sosialaidd fod. Trafodir y cyntaf o'r materion hyn yn yr adran hon, cyn troi at yr ail yn yr adran nesaf.

5.1 Sosialaeth chwyldroadol

Y farn gyffredinol ymhlith nifer o sosialwyr cynnar, gan gynnwys, wrth reswm, Karl Marx, oedd mai dim ond trwy chwyldro a fyddai'n dymchwel y drefn gyfalafol yn llwyr y gellid gobeithio cyflwyno sosialaeth. Tueddwyd hefyd i dderbyn y byddai trais yn ganlyniad tebygol o chwyldro o'r fath. Fel y gwelwyd, credai Marx bod dyfodiad y chwyldro hwn yn anochel, ac y byddai'r ecploetio sy'n nodweddu mor ganolog o weithredu cyfalafiaeth yn arwain y dosbarth gweithiol i ymgodi er mwyn mynnu newid. Fodd bynnag, proses reit wahanol oedd y chwyldro sosialaidd llwyddiannus cyntaf yn Rwsia yn 1917. Bryd hynny, cipiwyd grym gan garfan ddisgybledig o chwyldroadwyr dan arweiniad Vladimir Lenin, gweithred a ymdebygai'n fwy i *coup d'état* nag i wrthryfel cymdeithasol torfol.

Roedd dau reswm pam fod sosialwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg mor barod i arddel y syniad o chwyldro. I ddechrau, roedd cyfnod cynnar y broses o ddiwydiannu wedi arwain at amodau byw eithriadol o anodd i aelodau'r dosbarth gweithiol ac roedd y tlodi a brofwyd yn wirioneddol enbyd. O ystyried y fath amgylchiadau, gellir deall pam fod cymaint wedi casglu bod cyfalafiaeth yn ddim mwy na chyfundrefn oedd yn seiliedig ar ormesu amrwd, ac mai dim ond mater o amser fyddai hi tan i aelodau'r dosbarth gweithiol fod yn barod i herio'r drefn. Yn ail, ar y pryd, ychydig o opsiynau eraill oedd ar gael i aelodau'r dosbarth gweithiol os oeddent am sicrhau dylanwad gwleidyddol. Tra bo camau wedi'u cymryd ar draws sawl rhan o Ewrop yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg i sefydlu trefniadau llywodraethol cyfansoddiadol a chynrychioliadol, yn y mwyafrif o achosion câi'r hawl i bleidleisio ei gyfyngu i'r sawl a oedd eisoes yn berchen ar eiddo.

Fodd bynnag, nid dim ond mater o dactegau oedd cred rhai sosialwyr mewn angen am chwyldro er mwyn sicrhau newid gwleidyddol. Mae'r gred hefyd yn deillio o'u dehongliad o natur grym y wladwriaeth. Tra bo rhyddfrydwyr wedi tueddu i ddehongli'r wladwriaeth fel endid diduedd sydd â'r nod o roi ystyriaeth deg i fuddiannau pawb, mae sosialwyr chwyldroadol wedi'i ddehongli fel endid gormesol sydd â'r dasg o warchod buddiannau ac eiddo'r bourgeoisie ar draul y proletariat. O ystyried hyn, tybiwyd mai hollol ddibwrpas fyddai gyrchu sosialaeth drwy broses o ddiwygio araf a graddol. Yn hytrach, dim ond trwy ddymchwel y wladwriaeth bourgeoisie yn llwyr trwy gyfrwng chwyldro y gallai'r dosbarth gweithiol sicrhau cyfiawnder.

5.2 Graddoliaeth a'r llwybr seneddol

Mewn cyferbyniad, o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, datblygodd traddodiad sosialaidd mwy graddol a chymedrol a oedd yn amheus o'r angen am chwyldro treisgar er mwyn sicrhau newidiadau cymdeithasol ystyrllon. Fel y gwelwyd wrth drafod syniadau Eduard Bernstein uchod (adran 3), y sbardun gwreiddiol ar gyfer y datblygiad hwn oedd twf undebau llafur, pleidiau gwleidyddol sosialaidd, a hefyd, yr ehangu graddol ar yr hawl i bleidleisio. Gyda hyn, daeth yn bosib dychmygu llwybr seneddol mwy heddychlon tuag at y gymdeithas sosialaidd. Yn wir, daeth rhai sosialwyr i gredu'n raddol y byddai datblygu democratiaeth yn arwain yn anochel at roi syniadau sosialaidd ar waith. Seiliwyd y ffydd hon ar gyfres o dybiaethau.

- I ddechrau, tybiwyd y byddai estyn yr hawl i bleidleisio i bob oedolyn o fewn cymdeithas yn trosglwyddo grym gwleidyddol sylweddol i ddwylo aelodau'r dosbarth gweithiol, sef y dosbarth mwyaf niferus mewn unrhyw gymdeithas ddiwydiannol.
- Yn ail, tybiwyd y byddai aelodau'r dosbarth gweithiol yn sicr o estyn eu cefnogaeth i achos sosialaeth. Gan fod cyfalafiaeth yn gyfundrefn a oedd yn gormesu aelodau'r dosbarth gweithiol, doedd dim amheuaeth y byddai'r bobl hynny felly yn pleidleisio dros bleidiau sosialaidd.
- Yn drydydd, tybiwyd y byddai pleidiau sosialaidd, o gael eu hethol, yn medru mynd ati i gyflwyno rhaglen o newidiadau cymdeithasol pellgyrhaeddol.

Yn gryno, tybiwyd bod democratiaeth nid yn unig yn cynnig ffordd o wireddu sosialaeth trwy gyfrwng dulliau heddychlon, roedd yn golygu bod y broses honno yn anochel.

Fodd bynnag, erbyn heddiw mae'n eglur nad oedd sail gadarn i'r un o'r tybiaethau uchod. Yn wir, er bod pleidiau o anian sosialaidd wedi sicrhau cefnogaeth sylweddol, a hefyd wedi cipio grym gwleidyddol ym mhob gwladwriaeth ddemocrataidd, ac eithrio gwladwriaethau Gogledd America, nid yw eu goruchafiaeth seneddol wedi bod yn barhaol. Cwyd hyn gwestiynau pwysig ynglŷn ag i ba raddau y gall sosialwyr gymryd yn ganiataol y bydd aelodau'r dosbarth gweithiol bob amser yn gefnogol i achos sosialaeth. Yn ogystal, yn ystod y blynyddoedd diweddar, yn sgil y broses o ddat-ddiwydiannu a'r newidiadau yn natur y farchnad lafur a ddaeth yn sgil twf galwedigaethau proffesiynol, ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd y rhan fwyaf o aelodau cymdeithas bellach yn perthyn i'r dosbarth gweithiol.

SOSIALAETH

6.0 Sosialaeth a chyfalafiaeth: dymchwel ynteu ddiwygio?

Yr ail fater pwysig sy'n destun anghydweld sylweddol rhwng gwahanol draddodiadau sosialaidd yw'r union amcanion y dylid eu cyrchu – hynny yw, pa fath o gymdeithas y dylai'r un sosialaidd fod. Yn ei hanfod, mae'r anghydweld sy'n codi yn y cyswllt hwn yn deillio o syniadau gwahanol ynglŷn â sut i ymdrin â chyfalafiaeth: a ddylid ei ddymchwel ynteu'i ddiwygio?

6.1 Comiwnyddiaeth

Ar y naill law, mae'r sosialwyr hynny sydd wedi glynu wrth ddehongliadau Marx a Lenin wedi mynnu mai dim ond trwy ddymchwel cyfalafiaeth yn llwyr a sefydlu cymdeithas gomiwnyddol amgen yn ei lle y gellir gobeithio sicrhau cyfiawnder a chydaddoldeb cymdeithasol.

Ar y cyfan, digon bras yw'r manylion a geir gan Marx ei hun ynglŷn ag union natur y gymdeithas gomiwnyddol. Fodd bynnag, mae rhai pwyntiau pendant yn cael eu gwneud ganddo. I ddechrau, cam cwbl sylfaenol yn ei dyb ef yw sefydlu unbennaeth y proletariat yn gynnar yn ystod y chwyldro. Golyga hyn fod y dosbarth gweithiol yn cipio grym iddyn nhw'u hunain. Yn nhyb Marx, bydd angen unbennaeth o'r fath yn ystod y cyfnod cynnar er mwyn sicrhau nad yw'r bourgeoisie yn ad-drefnu gan danseilio'r chwyldro a hefyd er mwyn sicrhau bod y broses o sefydlu comiwnyddiaeth yn mynd rhagddo'n llwyddiannus. Wrth fynd ati wedyn i sefydlu comiwnyddiaeth, un o'r camau allweddol hollbwysig fyddai dileu perchnogaeth breifat o'r moddion cynhyrchu – hynny yw, yr adnoddau economaidd hynny a fu gynt yn eiddo i'r bourgeoisie ac yn sail i'w grym. Yn hytrach na pharhau fel asedau preifat i gyfalafwyr unigol, bydd yr adnoddau hyn yn cael eu trosglwyddo i fod yn eiddo cyffredin i'r gymdeithas gyfan. Trwy wneud hynny, gellir sicrhau bod y broses o gynhyrchu a dosbarthu nwyddau yn troi o fod yn un sy'n seiliedig ar y nod o wneud elw i unigolion i fod yn un sy'n anelu at ateb gwir anghenion cymdeithasol. Wrth i'r broses hon fynd rhagddi, tybiai Marx y byddai'r gwahaniaethau dosbarth a nodweddi'r gymdeithas gyfalafol yn diflannu'n raddol ac, yn y pen draw, y byddai'r angen am wladwriaeth hefyd yn diflannu.

Fodd bynnag, profodd comiwnyddiaeth ymarferol, fel a ddatblygodd mewn mannau fel yr Undeb Sofietaidd, dwyrain Ewrop, China a Cuba yn ystod yr ugeinfed ganrif, yn bur wahanol i'r hyn a gafodd ei ragweld gan Marx ac Engels ddegawdau ynghynt. I raddau helaeth, deilliodd hyn o'r ffaith na welwyd pleidiau comiwnyddol yn cipio grym yng ngwladwriaethau trwyadl cyfalafol, datblygedig gorllewin Ewrop, fel y tybiodd Marx. Yn hytrach, fe ddigwyddodd mewn gwledydd llawer llai datblygedig, ble roedd rhannau helaeth o'r boblogaeth yn parhau i fyw bywyd mewn ardaloedd gwledig iawn – megis Rwsia (oedd serch hynny â nifer o ganolfannau diwydiannol mawrion lle'r oedd sosialaeth yn cydio), ac yn arbennig China. Nid oedd yn y mannau hyn ddosbarth gweithiol torfol cryf oedd yn wleidyddol hunanymwybodol ac yn barod i herio'r drefn yn y modd roedd Marx yn rhagdybio. Yn sgil hynny, ni ddatblygodd y mudiadau chwyldroadol ar hyd yr union linellau a ddychmygyd.

Yn achos Rwsia, ymgyrch a gafodd ei arwain gan garfan cymharol fach o radicaliaid ymroddedig oedd y chwyldroad comiwnyddol a welwyd. Cafodd hyn effaith maes o law ar natur y cyfundrefnau llywodraethol a gafodd eu sefydlu. Pan fu i'r Bolsieficiaid gipio grym yn Rwsia yn

SOSIALAETH

1917, dan arweiniad Lenin, fe wnaed hynny gan hawlio eu bod yn gweithredu yn enw buddiannau'r dosbarth gweithiol. O ganlyniad, casglwyd bod unrhyw garfan wleidyddol a oedd yn eu gwrthwynebu yn cynrychioli safbwyntiau a buddiannau dosbarthiadau eraill – yn arbennig y bourgeoisie – ac felly er mwyn gwarchod enillion y chwyldro, rhaid oedd gwahardd ac atal pob plaid heblaw'r Blaid Gomiwnyddol. Erbyn 1920, felly, roedd yr Undeb Sofietaidd wedi datblygu i fod yn gyfundrefn un-blaid, dotalitaraidd ble dim ond un corff penodol – pwyllgor canolog y Blaid Gomiwnyddol – oedd yn meddu ar yr hawl i leisio beth oedd buddiannau'r dosbarth gweithiol a sut felly y dylid parhau â'r gwaith o roi comiwnyddiaeth ar waith. Golyga hyn bod y profiad ymarferol o gomiwnyddiaeth yn ystod yr ugeinfed ganrif wedi'i nodweddu gan amgylchiadau llawer mwy cul a chaeth na'r disgwyliadau rhyddfrefniol a gafodd eu mynegi gan Marx.

6.2 Diwygio a ffrwyno cyfalafiaeth

Tra bo nifer o ddilynwyr Marx wedi parhau i fynnu bod cyfalafiaeth yn gyfundrefn sy'n meddu ar wendidau sylfaenol, ac felly y tu hwnt i'w hachub, mae'r sosialwyr mwy graddol hynny sydd wedi gogwyddo tuag at y traddodiad democrataidd cymdeithasol wedi mabwysiadu safbwynt mwy cymedrol. Yn ei hanfod dyma safbwynt sy'n seiliedig ar geisio dofi a ffrwyno cyfalafiaeth, yn hytrach na'i ddymchwel yn llwyr. Tynnwyd sylw eisoes at rai o'r camau y cred democrataid cymdeithasol y gellir eu cymryd er mwyn cyflawni hyn (gweler adran 3). I grynhoi eto, maent yn cynnwys y canlynol:

- **Yr Economi Cymysg:** Dyma drefniant economaidd sy'n sefyll hanner ffordd rhwng cyfalafiaeth farchnadol cwbl rydd a pherchnogaeth gyhoeddus ar bob agwedd o'r economi. Mae democrataid cymdeithasol wedi tueddu i gydnabod bod gan y farchnad rydd ei lle. O ganlyniad, dadleuwyd y dylid cyfyngu mesurau sy'n sefydlu perchnogaeth gyhoeddus i feysydd penodol – uchelfannau'r economi fel trydan, glo, dur a'r rheilffyrdd – tra bo gweddill yr economi yn parhau mewn perchnogaeth breifat.
- **Rheoli Economaidd:** Tra bo democrataid cymdeithasol yn derbyn bod gan gyfalafiaeth ei rinweddau, maent hefyd yn gweld bod angen ei reoleiddio er mwyn sicrhau twf economaidd cyson a gwarchod rhag cyfnodau o ddiweithdra neu chwyddiant sydyn. Golyga hyn bod democrataid cymdeithasol fel rhyddfrydwyr modern wedi dadlau o blaid polisiau macro-economaidd Keynesaidd sy'n defnyddio gwariant cyhoeddus a threthiant er mwyn rheoleiddio cyfalafiaeth.
- **Gwladwriaeth Les:** Dyma'r dull a ffafirir gan ddemocrataid cymdeithasol er mwyn ceisio dofi'r anghyfartaledd a all godi o dan gyfalafiaeth. Trwy'r wladwriaeth les – sefydliadau fel y drefn addysg, y gwasanaeth iechyd, y drefn fudd-daliadau – gall y wladwriaeth ailddosbarthu cyfoeth a chyfleoedd, gan geisio sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws cymdeithas a lleihau tldi.

At ei gilydd, rhaglen wleidyddol ac economaidd mwy cymedrol sydd wedi nodweddu'r traddodiad democrataidd cymdeithasol, fel un sy'n fwy parod i gydnabod bod cyfalafiaeth yn gyfundrefn sy'n meddu ar rai rhinweddau, ac yn sgil hynny y dylid rhoi'r pwyslais ar ffrwyno ei agweddau mwy niweidiol yn hytrach na'i ddymchwel yn llwyr. Golyga hyn felly gydbwysio

SOSIALAETH

mesurau sy'n sefydlu rheolaeth gyffredin dros rai rhannau o'r economi gyda darpariaethau sy'n gwarantu rôl sicr i berchnogaeth a masnachu preifat hefyd.

7. Sosialaeth yng ngwleidyddiaeth Cymru

“Yn eu calonnau, y mae'r bobloedd Geltaidd oll yn Gomiwnyddion... a chariad y Cymry at Sosialaeth ymysg eu rhinweddau mwyaf adnabyddus.”

Mae'r dyfyniad hwn o 1907 gan Keir Hardie – arweinydd y Blaid Lafur ac Aelod Seneddol Merthyr – yn crybwyll y cysylltiad tybiedig rhwng Cymru a sosialaeth, a'r awgrym bod perthynas naturiol rhyngddynt. Ar un wedd, mae'r honiad yn gwbl anacronistaidd, yn yr ystyr bod y syniad o etifeddiaeth sosialaidd sy'n ymestyn yn ôl dros y canrifoedd yn groes i'r ffaith mai ideoleg fodern yw sosialaeth. Mae'n debygol bod y canfyddiad yn deillio i raddau o'r dehongliad o natur y gymdeithas Gymreig sy'n ymestyn yn ôl i'r Canol Oesoedd, ac a amlygwyd yn yr hen gyfraith gynhenid, Cyfraith Hywel (a enwyd ar ôl Hywel Dda (880-950OC) a oedd yn gyfrifol am unioni cyfreithiau ar draws y mwyafrif o diriogaeth Cymru). Yn wir, yn eu trafodaethau o'r Cymry, y mae Marx ac Engels yn trafod eu cyfraith gynhenid a'u traddodiadau.

Mae'r gyfraith honno'n nodedig am rai agweddau fyddai'n cael eu hystyried heddiw fel rhai sy'n adlewyrchu pwysigrwydd cydraddoldeb a dosbarthu eiddo'n deg. Er enghraifft, mae'n hysbys – yn groes i dueddiad y dydd – ei bod yn rhoi sylw penodol i gyfraith menywod ac achosion fel ysgariad. Ceir sôn yn ogystal am berchnogaeth adnoddau, fel melinau dŵr, ar y cyd. Thema arall nodweddiadol yw dosbarthu tir; ble byddai cyfraith pobloedd eraill fel y Normaniaid yn arfer *primogeniture* – sef bod y tiroedd oll yn cael eu hetifeddu gan y mab hynaf – roedd Cyfraith Hywel yn gofyn bod y mab ieuengaf yn rhannu'r tir yn dalpiâu er mwyn i bob un o'r meibion dderbyn rhywfaint o'r etifeddiaeth. Yn ganolog i'r broses oedd y ffaith mai ef oedd yn cael y dewis olaf, er mwyn sicrhau rhaniad teg – oherwydd y byddai'r sawl oedd yn dewis olaf am sicrhau felly bod y talpiâu oll yn weddol o debyg. Wrth gwrs, mae'r ffaith bod y tir yn cael ei rannu rhwng y meibion, ac nid y merched hefyd, yn codi cwestiynau sylfaenol ynghylch pa mor deg a 'socialaidd' ei ffurf oedd y cymdeithasau Gymreig hyn. Rhaid gwarchod felly rhag hawlio'n ddifeddl bod yna draddodiad 'socialaidd' yng Nghymru cyn bod sosialaeth yn bod ond mae'n bwysig cydnabod bod y syniadau a'r straeon a chwedlau sydd wedi codi yn ei sgil wedi cael, ac yn parhau i gael, dylanwad cryf ar y modd y mae'r Cymry yn ystyried eu hunain fel pobl mwy 'socialaidd' na'u cymdogion yn Lloegr yn arbennig.

Ategwyd y canfyddiadau hyn gan realiti cymdeithasol Cymru yn yr oes fodern, yn benodol yn sgil y newidiadau hynod a ddilynodd ddatblygu'r chwyldro diwydiannol. Wrth i'r gweithfeydd a'r pyllau glo ddatblygu, mudodd cannoedd o filoedd o Gymry a phobl o fannau eraill i'r ardaloedd deheuol yn arbennig. Mae'n bosib honni felly y daeth Cymru yn fuan iawn yn wlad 'dosbarth gweithiol' oherwydd y canran cymharol uchel o bobl oedd yn byw yn y cymunedau diwydiannol hyn – nid yn unig yn y de ond hefyd yn y gogledd ddwyrain, tra bo datblygu'r diwydiant llechi yn y gogledd orllewin hefyd wedi esgor ar dwf cymunedau dosbarth gweithiol yn yr ardaloedd hynny hefyd. Yn yr ardaloedd diwydiannol hyn, yn enwedig erbyn troad yr ugeinfed ganrif, roedd syniadau ac arferion sosialaeth – yn enwedig yr undebau a sefydliadau cydweithredol – yn bwrw gwreiddiau gwydn a fyddai'n nodweddu'r cymdeithasau hynny am yn agos i ganrif.

7.1 Robert Owen

Trafodwyd eisoes gyfraniad anhepgor Robert Owen i'r traddodiad sosialaidd rhyngwladol, a phwysigrwyd rhai o'i egwyddorion gwaelodol a osododd y seiliau ar gyfer ei ddatblygiad. Ceir awgrym bod gweledigaeth Owen am gymunedau cydweithredol cymharol fychan (wedi'i enghreifftio gan New Lanark, sydd bellach yn safle treftadaeth UNESCO) wedi'i ysbrydoli gan brofiadau ei blentyndod yn y Drenewydd – yn arbennig felly'r pwyslais a roddai ar y berthynas rhwng dyn a natur a'r angen i barchu'r amgylchedd. Mae'n bosib hefyd dehongli ei syniadau optimistaidd, 'iwtopaidd' fel y galwyd hwy gan Marx, fel cynnyrch y traddodiad crefyddol Methodistaidd a oedd wedi cydio yng Nghymru ei blentyndod. Roedd 'milenariaeth' yn ddylanwad trwm ar y mudiad hwn, sef y syniad bod y gymdeithas ddynol yn paratoi am ailddyfodiad Iesu a gwireddu, i bob pwrpas, nefoedd ar y ddaear. Ystyrir fod optimistaeth y sosialwyr cynnar, ac athronwyr fel Hegel a Marx, ynghylch datblygu'r gymdeithas tuag at berffeithrwydd yn ddehongliad seciwlar o'r milenariaeth hwnnw, ac yn sicr ni cheir yr un meddyliwr sosialaidd oedd yn fwy crediniol ym mhosibiliad perffeithrwydd na Robert Owen.

Fodd bynnag, nid oes modd honni bod sosialaeth wedi cydio'n gynnar yng Nghymru ar sail gweithgarwch Owen, a oedd wedi gadael Cymru ac yntau'n fachgen ifanc (er yn ddoeth a hynod yn ddeng mlwydd oed). Datblygodd nifer o'i syniadau aeddfetach yn ystod ei gyfnod fel oedolyn ifanc ym Manceinion. Yn wir, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er twf sydyn y cymunedau diwydiannol, cafwyd gwrthwynebiad i syniadau Owen yn ei famwlad oherwydd eu bod yn gwrthod crefydd sefydliadol, ac yn wir mae hynny'n adlewyrchu anfodlonrwydd ehangach i gofleidio ideoleg a oedd yn ei hanfod yn ddehongliad seciwlar o'r Bregeth ar y Mynydd. Dim ond gyda thwf y cymunedau hyn, datblygiad undebaeth, ehangu'r etholfraint a hefyd mewnlifiad pobl a syniadau o ardaloedd dinesig Lloegr a thu hwnt, y dechreuodd sosialaeth gydio yng Nghymru fesul tipyn wrth i'r ganrif ddirwyn i ben. Yn y cyfnod hwnnw fe drodd rhai o'r Cymry at eu cydwladwyr am ysbrydoliaeth.

7.2 Y Blaid Lafur a ffrydiau Sosialaidd yng Nghymru

Un o'r ffigurau mwyaf lliwgar a deniadol ymysg sosialwyr Cymru erbyn troad yr ugeinfed ganrif oedd R.J. Derfel, bardd a phregethwr a fu'n byw ym Manceinion ran helaeth o'i oes, a drodd at sosialaeth gan gymryd Owen fel ei brif ysbrydoliaeth. Rhedai siop lyfrau Cymraeg yno, a gwasg gysylltiedig, gan gyhoeddi'n helaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd hefyd yn un o'r sawl a sicrhodd ddylanwad cynnar y Gymdeithas Fabian yng Nghymru. Un o'r agweddau a nodwedddai ei ymdrechion oedd yr ymdrech i gysoni ei ffydd a'i sosialaeth – ymgais a oedd yn gynyddol haws mewn oes ble roedd sosialwyr Cristnogol yn dwyn ysbrydoliaeth gan ffigurau fel John Ruskin a William Morris.

Byddai Derfel ei hun yn ysbrydoliaeth maes o law i sosialwyr yr ugeinfed ganrif fel T.E. Nicholas – 'Niclas y Glais' – un o nifer o Gymry Cymraeg a oedd yn weithgar yn y Blaid Lafur gyda Keir Hardie. Ymysg ei gyfoedion roedd David Thomas, addysgwr ac awdur a fu'n ganolog i'r ymdrech i sefydlu'r Blaid Lafur yng ngogledd Cymru. At ei gilydd, mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli ffrwd o Sosialaeth Gymreig oedd wedi'i dylanwadu'n rhannol gan agweddau

SOSIALAETH

'cynhenid' fel Anghydfuriaeth, ac a oedd yn weithgar wrth geisio sefydlu Plaid Lafur Gymreig a fyddai'n rhoi pwyslais ar ddiwylliant a'r Gymraeg, ac a oedd hefyd yn gefnogol o ymreolaeth, os nad annibyniaeth i Gymru. Yn ffigur Keir Hardie, yr Albanwr a'r Methodist, roedd ganddynt enaid hoff cytûn, ond wedi'i farwolaeth a chyfnod cythryblus y Rhyfel Byd Cyntaf, pylodd gweithgaredd yr asgell hon o'r blaidd wrth iddi gael ei dylanwadu fwyfwy gan y sawl oedd yn dymuno gweld unoliaeth â'r Blaid Lafur ledled Prydain.

Rhaid cofio bod sosialaeth wedi bwrw gwreiddiau yn ne Cymru a'r gogledd-ddwyrain yn rhannol trwy gysylltiadau â Lloegr a diwydiant a'r rheilffyrdd, ac, yn hynny o beth, ddylanwad cynyddol yr iaith Saesneg. Roedd sefydliadau fel y Coleg Llafur Canolog yn ddylanwadol iawn o safbwynt datblygu ymwybyddiaeth ac ideoleg sosialaidd oedd yn arddel unoliaeth yr achos sosialaidd Prydeinig ac yn wrthwynebus i'r syniad o wahaniaeth ymysg y dosbarth gweithiol. Ategwyd hyn yn arbennig gan y 'FED', Ffederasiwn Glowyr De Cymru, a bwysleisiai gydsafiad rhyngwladol wedi'i wreiddio mewn hunaniaeth dosbarth, ar draul mynegiant o ymwybyddiaeth o genedl. Wedi'r chwyldro yn Rwsia ar ddiwedd y Rhyfel Byd cyntaf, ymlediad syniadau Marcsaidd, a dylanwad cynyddol y Blaid Gomiwnyddol yng Nghymru, cryfhau a wnaeth yr agweddau cydwladol yma'n arbennig. Ar y cyfan, nid oedd lle o fewn y byd-olwg hwn i anghenion neu anghyfiawnderau a oedd yn benodol i'r Cymry – er y Comiwnyddion, yn fwy na neb, oedd yn fodlon ystyried pwysigrwydd yr hunaniaeth Gymreig fel rhan o'r frwydr yn erbyn cyfalafiaeth. Roedd hyn, wrth gwrs, yn cyd-fynd â'r tueddiad ymhlith mudiadau Rhyddhad ledled y byd i asio'r cenedlaetholgar a'r Comiwnyddol, ac roedd unigolion megis Niclas y Glais yn gyfforddus iawn yn dilyn y patrwm yn achos Cymru.

Ffrwd arall o'r syniadaeth a gafodd ddylanwad byrhoedlog yng Nghymru oedd syndicaliaeth, a hynny o dan ddylanwad ffigurau fel Noah Ablett, prif awdur y pamffled '*The Miners Next Step*' a gyhoeddwyd yn 1912. Yn ei hanfod, roedd syndicaliaeth yn draddodiad oedd yn wrthwynebus i dueddiadau sosialaidd mwy confensiynol a dueddai at y syniad o ganoli grym yn y wladwriaeth. Yn hytrach na phleidiau, ystyrid mai'r undebau oedd y sefydliadau pwysicaf, gan arddel perchnogaeth leol yn hytrach na chael diwydiannau yn nwylo'r wladwriaeth, a chyfundrefn ffederal wedi'i threfnu yn ôl unedau economaidd y gymdeithas yn hytrach na gwladwriaeth ganolog, rymus. Yn hynny o beth ceir rhai cysondebau gyda gweledigaeth wreiddiol Robert Owen am gyfres o gymunedau cydweithredol, ond yn y pen draw, daeth y mudiad sosialaidd yng Nghymru, fel ym Mhrydain, i ddibynnu ar y Blaid Lafur fel y sefydliad i yrru'r achos yn ei flaen.

7.3 Aneurin Bevan

I nifer, ymgorfforir y Blaid Lafur yng Nghymru gan ffigur totemig Aneurin Bevan. Daeth yn Aelod Seneddol yn 1929, ac erbyn hynny roedd y blaidd wedi ennill yr oruchafiaeth etholaethol sydd wedi parhau hyd heddiw. Yn etholiad cyffredinol 1922 enillodd dros hanner y seddi ac ers hynny mae wedi dominyddu gwleidyddiaeth bleidiol, gan ennill dros 50% o'r blediaid boblogaidd ar sawl achlysur. Mae Bevan yn fwyaf adnabyddus am ei rôl fel y Gweinidog a sefydlodd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn ystod llywodraeth Lafur Clement Attlee, a gipiodd rym yn 1945

SOSIALAETH

wedi'r Ail Ryfel Byd, ac a sefydlodd y Wladwriaeth Les fodern oedd yn ceisio sicrhau addysg, gofal iechyd a system fudd-daliadau a fyddai'n darparu cymdeithas lawer fwy cydradd.

Bu'n ffigur dadleuol a oedd yn hollti'r farn gyhoeddus, a nodweddyd ei yrfa gan y duedd i droedio'r ffin rhwng bod yn idealydd a oedd yn gweithredu ar sail egwyddor a gwleidydd pragmataidd oedd yn benderfynol o gael y maen i'r wal. O ganlyniad, profodd gyfnodau ar ymylon y blaid, a chyfnodau eraill ble byddai'n cymryd y llwybr pragmataidd, ac roedd yn parhau'n ffigur dylanwadol a blaenllaw tan ei farwolaeth yn 1960. Yn wir, adnabuwyd un adain o'r Blaid erbyn hynny – carfan a oedd yn glynu at syniadau mwy radical asgell chwith – fel y 'Bevanites', yn wyneb arweinyddiaeth fwy cymedrol Hugh Gaitskell o'r blaid.

Nodweddiadau syniadau Bevan nifer o'r gwerthoedd ac egwyddorion a drafodwyd eisoes, gan bontio'r traddodiad mwy chwyldroadol Marcsaidd a'r traddodiad o Ddemocratiaeth Sosialaidd. Yn sicr, yn ei bwyslais ar rym, ei ddealltwriaeth o ddylanwad hollbwysig strwythurau economaidd cymdeithas, a'i gred yn yr egwyddor o genedlaetholi'r diwydiannau mawrion, roedd dylanwad Marx, a'i addysg yn y Coleg Llafur Canolog, yn amlwg. Yn ystod y 1930au pan oedd traddodiad mwy cymedrol y Blaid Lafur dan y lach, oherwydd ei methiannau ac argyfwng y dirwasgiad mawr, roedd Bevan yn un o'r sawl oedd yn fwy agored i'r dylanwadau mwy radical. Ar y llaw arall, roedd yn drwm i egwyddorion democratiaeth, pwysigrwydd rhyddid a'r cyfrifoldeb unigol y mae'n ei ganiatáu, ac roedd y gwerthoedd hyn yn cael eu hamlygu yn ei feirniadaeth o dueddiadau totalitaraidd yr Undeb Sofietaidd.

Amlygai safbwyntiau Bevan ar Gymru rai tensiynau yn ei agweddau gwleidyddol a phersonol. Ac yntau'n fab i Gymro Cymraeg a bardd, roedd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant Cymreig, yn enwedig yn wyneb yr hyn a ystyriai fel llwydni'r diwylliant cyfalafol, Americanaidd. Ar y llaw arall, roedd yn feirniad hallt o genedlaetholdeb Cymreig, gan ystyried problemau'r dosbarth gweithiol yng Nghymru fel rhai oedd yn addas ar gyfer ymateb a pholisi ar lefel Brydeinig yn unig. Yn hynny o beth roedd yn euog ar brydiau o borthi safbwyntiau llai na charedig yn erbyn cenedlaetholwyr Cymreig. Ac eto, cydnabyddir gan fwy nag un o'i gyfoedion ei fod yn ddylanwadol yn y pen draw o safbwynt sicrhau sefydlu'r Swyddfa Gymreig, a agorwyd yn 1964, ac a fu'n bwysig o safbwynt y daith hir tuag at ddatganoli a sefydlu'r Senedd.

7.4 Raymond Williams a Sosialaeth Plaid Cymru

Yn wahanol i Aneurin Bevan, roedd un o ffigurau arall mwyaf nodedig y traddodiad sosialaidd yng Nghymru yn academydd – un a oedd yn hanu o'r Pandy, pentref bach yn Sir Fynwy ar y ffin â Lloegr. Astudiodd Raymond Williams yng Nghaergrawnt a dychwelodd yno fel ysgolhaig, a daeth yn adnabyddus yn rhyngwladol am ei waith ym maes astudiaethau diwylliannol ac am ei gyswllt â mudiad y *New Left*. Yn y bôn, dyma grŵp o feddylwyr a geisiodd addasu syniadau'r traddodiad Marcsaidd trwy leihau'r pwyslais ar y sylfaen economaidd, gan ddadansoddi yn hytrach y modd y mae agweddau ar ddiwylliant yn gweithredu a chynnal y system gyfalafol. Dylanwadwyd Williams a'i debyg gan athronwyr fel Gramsci, a dynnodd sylw at y modd y mae'r uwchstrwythur (agweddau hytrach i'r economi fel gwleidyddiaeth a'r gyfraith) yn dylanwadu'n drwm ar y modd y mae pobl yn deall ac yn dod i dderbyn syniadau a gwerthoedd y system

honno. Drwy ei bwyslais ar ddylanwad diwylliant poblogaidd a'r ffocws ar y cyfryngau torfol, newidiodd Williams yr hyn a ddeallwyd gan astudiaethau diwylliannol ar ffurfiau mwy traddodiadol fel llenyddiaeth.

Goblygiadau ymarferol syniadau'r o'r fath oedd ehangu'r frwydr yn erbyn y drefn y tu hwnt i 'lawr y ffatri' gan bwysleisio pwysigrwydd ymwrthod â strwythurau gormesol y wladwriaeth gyfalafol ar seiliau eraill. Yn benodol, roedd y *New Left* yn dueddol o bwysleisio pwysigrwydd brwydrau ar sail hunaniaeth, gan fawrygu ffeministaeth a'r frwydr am gydraddoldeb i ferched, a gweithgarwch lleiafrifoedd a phobl o liw wrth geisio sicrhau cydnabyddiaeth a hawliau. Yn dilyn o'r safbwynt cychwynol hwn, roedd gan Raymond Williams safbwyntiau diddorol am sefyllfa Cymru, ac ystyriai gweithredu Cymdeithas yr Iaith yn rhan o'r gwrthwynebiad ehangach i'r drefn. Yn wir, am gyfnod bu'n aelod o Blaid Cymru. Yn groes i draddodiad prif ffrwd y Blaid Lafur, ystyriai'r wladwriaeth Brydeinig yn rhan o'r broblem i sosialwyr, oherwydd bod y wladwriaeth honno, yn ei farn ef, wedi'i hieuo at gyfalafiaeth. Ymhellach, yn ei ysgrifau, awgryma Williams yn ogystal fod y diwylliant dosbarth gweithiol a'r diwylliant sydd ynghlwm â'r iaith Gymraeg ill dau yn ffurfiau ar fyw sy'n herio'r drefn, a bod natur y gymdeithas Gymreig felly yn wrthnysig i gyfalafiaeth mewn modd nad sy'n wir am agweddau ar y gymdeithas Seisnig – sy'n tueddu mwy at agwedd o wasanaethu'r drefn gyfalafol.

Bu gwaith Williams yn ddylanwadol ymysg rhai cenedlaetholwyr yng Nghymru, yn arbennig unigolion fel Dafydd Elis Thomas, a fu'n gyfrifol am geisio gosod Plaid Cymru ar lwybr sosialaidd yn y 1970au a'r 1980au. Roedd ffigurau eraill fel Robert Griffiths a Gareth Miles, a fyddai'n sefydlu'r Mudiad Sosialaidd Gweriniaethol Gymreig yn ystod y 1980au, hefyd yn gyfrifol am boblogeiddio syniadau uniongred Marcsaidd ymysg cenedlaetholwyr. Hanfod y dadleuon hyn oedd na fyddai modd i Gymru ffynnu fel gwlad a gwarchod buddiannau ei phobl oni bai ei bod yn datblygu'n wladwriaeth annibynnol, drwyadl sosialaidd. Er na lwyddasant i newid y blaid i fod yn llwyr radical, mae'n wir fod Plaid Cymru ers y 1980au wedi symud i ddisgrifio'i lleoliad ei hun fel plaid sosialaidd ac wedi'i lleoli'i hun yn glir ar adain chwith y sbectrwm gwleidyddol, yn rhannol mewn ymgais i herio dominyddiaeth y Blaid Lafur yn ardaloedd diwydiannol y de.

7.5 Sosialaeth ers Datganoli

O safbwynt pleidiol, mae'r Senedd yng Nghymru wedi bod yn gorff llywodraethol lled-sosialaidd ers y cychwyn, a hynny ar sail y ffaith bod y Blaid Lafur wedi ennill oddeutu hanner y bleidlais ymhob etholiad, a Phlaid Cymru'n dychwelyd oddeutu 10 neu fwy o aelodau. Ond er bod dau draean o'r aelodau felly'n cynrychioli pleidiau sosialaidd democrataidd mewn enw, mae'n ansicr i ba raddau y gellir ystyried polisiâu yng Nghymru dros y cyfnod hwnnw yn rhai traddodiadol asgell chwith – a hynny er bod y Blaid Lafur wedi llywodraethu mewn clymblaid gyda Phlaid Cymru rhwng 2007 a 2011, a rhoi cefnogaeth achlysurol ers hynny.

Yn ystod cyfnod Rhodri Morgan yn Brif Weinidog, does dim amheuaeth fod y Blaid Lafur wedi defnyddio rhexreg ac ambell bolisi er mwyn lleoli Llafur yng Nghymru i'r chwith o New Labour Tony Blair a Gordon Brown yn San Steffan, gan fathu'r dywediad bod yna 'ddŵr coch croyw' rhwng Cymru a Lloegr, neu'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Ymgais oedd hyn i fynegi'r

SOSIALAETH

syniad bod y traddodiad Cymreig yn meddu ar werthoedd ychydig yn fwy sosialaidd, a bod angen i bolisiâu adlewyrchu hynny, fel y penderfyniad i sicrhau presgripsiwn am ddim i gleifion y Gwasanaeth Iechyd. Cafwyd ymdrech hefyd i ymwrthod â thuedd New Labour i geisio diwygio rhannau o'r sector cyhoeddus, fel addysg a iechyd, trwy ddefnyddio cwmnïau preifat i gynnig rhai gwasanaethau, neu hybu cystadleuaeth rhwng darparwyr.

Fodd bynnag, anodd iawn fyddai dadlau bod rhai o'r polisiâu hyn wedi mynd â Chymru ar drywydd gwahanol iawn, tra bo Llafur Cymru dan Carwyn Jones wedi amlygu'r gwahaniaethau honedig hyn lawer yn llai. Mae hyn yn ganlyniad i raddau i'r ffaith fod y Ceidwadwyr wedi bod mewn grym yn San Steffan, a bod y pwyslais wedi bod felly ar amddiffyn gwasanaethau craidd yng Nghymru, ond amlygir tueddiadau llai trwyadl sosialaidd Llafur gan arweinyddiaeth Leanne Wood dros Blaid Cymru, a dyfodiad diweddar Jeremy Corbyn fel arweinydd y Blaid Lafur yn San Steffan. Y mae safbwyntiau a maniffestos Plaid Cymru yn ddiweddar wedi tueddu i fod yn fwy sosialaidd eu naws, tra bo Carwyn Jones wedi ei leoli'i hun a Llafur Cymru mewn gwrthwynebiad i safbwyntiau mwy traddodiadol sosialaidd Corbyn. Erbyn hyn, ymddengys bod y dŵr coch croyw'n llifo i'r cyfeiriad arall, yn achos y Blaid Lafur o leiaf.

8. Sosialaeth mewn Gwleidyddiaeth fyd-eang

Mae sosialaeth yn ei hamryw ffurfiau yn ideoleg gyfanfydol, yn yr ystyr ei bod yn gasgliad o werthoedd a syniadau y mae'r sawl sy'n eu harddel yn credu y gellid eu lledaenu ledled y byd – yn ddamcaniaethol o leiaf. Dyna oedd cred Robert Owen ynghylch ei gymunedau cydweithredol – cymunedau y credai allasai nodweddu pob cymdeithas pa ots ble yn y byd. Yn eu *Manifesto Comiwnyddol* apeliodd Engels a Marx ar weithwyr y byd i uno yn eu brwydr yn erbyn y bourgeoisie. Adlewyrchir y traddodiad hwn yn yr honiad cyson bod sosialaeth yn ideoleg rhyngwladolaidd (*internationalist*), a'i golygon yn ymestyn y tu hwnt i'r genedl unigol i gyfeiriad y rhyngwladol, gan arddel achosion fel hawliau gweithwyr, heddwch a chydaddoldeb ar y lefel honno'n ogystal. Ymgorfforwyd y naws rhyngwladol hon mewn dau sefydliad o bwys mawr, sef y *First International*, neu'r *International Workingman's Association* (1864-1876), a'r *Second International* (1889-1916). Bwriad y ddau fudiad oedd uno grwpiau asgell chwith – sosialwyr, comiwnyddion, anarchwyr, undebau – mewn rhwydwaith rhyngwladol er mwyn ymuno mewn rhyfel dosbarth. Daeth y cyntaf i ben oherwydd rhwygiadau gyda'r anarchwyr, nad oedd yn rhan o'r sefydliadau dilynol, er i'r mudiad barhau'n ddylanwadol tan y Rhyfel Byd Cyntaf. Chwalwyd yr achos o ganlyniad i gefnogaeth nifer o bleidiau sosialaidd i'r rhyfel, yn wyneb gwrthwynebiad egwyddorol i weld y dosbarth gweithiol yn cael ei droi'n ysglyfaeth i'r gynau mawr. Roedd y *Third International* yn fater arall, sef y *Comintern*: y sefydliad hwnnw a ffurfiwyd yn 1919 i genhadu dros Gomiwnyddiaeth ar ran yr Undeb Sofietaidd. Byddai'n chwarae rhan flaenllaw yn Rhyfel Cartref Sbaen (1936-39) pan frwydrodd sosialwyr, anarchwyr a Chomiwnyddion gyda'r Gwerinwyr, yn erbyn y lluoedd cenedlaetholgar. Dyma fynegiant croyw o rhyngwladoldeb y mudiad sosialaidd rhyngwladol, gyda'r *International Brigades* a drefnwyd gan y Comintern yn denu degau o filoedd o filwyr o wledydd amrywiol – a'r Cymry yn eu mysg. Mae llyfr nodedig Hywel Francis, *Miners Against Facism* yn olrhain cyfraniad yr unigolion yma i'r rhyfel.

8.1 Marcsiaeth

Mae'n deg dweud bod y traddodiad Marcsaidd o'r diddordeb mwyaf ar y lefel rhyngwladol, a hynny'n rhannol oherwydd ei lwyddiant fel ideoleg dan arweiniad Comiwnyddion yr Undeb Sofietaidd, ac yn rhannol oherwydd y safbwyntiau a'r dadansoddiad nodedig y mae'r persbectif yn ei gynnig. Yn benodol, dangosai'r Farcsiaeth a ddatblygwyd gan Lenin (arweinydd yr Undeb Sofietaidd yn sgil y Chwyldro Rwsiaidd yn 1917) sut y gellid dehongli ymerodraethau'r cyfnod fel mynegiant o gyfalafiaeth ar ei ffurf fwyaf datblygedig, wrth i wladwriaethau cyfoethog y gorllewin geisio chwilio am fwy o elw trwy ecsploetio llafur ac adnoddau o rannau eraill o'r byd. O'r safbwynt Marcsaidd felly, gellir deall gwleidyddiaeth rhyngwladol nid yn gymaint fel cymdeithas neu system a nodweddir gan wladwriaethau unigol sy'n cydweithredu neu'n brwydro yn erbyn ei gilydd, ond yn hytrach fel un system economaidd fyd-eang y mae rhai gwledydd penodol yn ei rheoli ac yn ei defnyddio er mwyn ecsploetio eraill.

Yr uchelgais tymor hir o safbwynt Comiwnyddiaeth, felly, yw dinistrio'r system gyfalafol hon ar lefel rhyngwladol, er mwyn gwaredu'r byd o system a ystyrir yn anfoesol a diangen. Ymhlyg ym mholisi tramor gwladwriaeth fel yr Undeb Sofietaidd roedd y bwriad o geisio tanseilio'r gwledydd hynny oedd yn driw i gyfalafiaeth – ond yn ymarferol, nid oedd hyn yn flaenoriaeth nac yn

SOSIALAETH

realistig, yn enwedig yn ystod blynyddoedd cynnar y wladwriaeth honno. Yn wir, yn sgil gofynion mewnol sefydlu system gomiwnyddol a'i datblygu, sgilleffeithiau'r dirwasgiad mawr, a chynnydd ffasgaeth yn Ewrop, am gyfnod hir ni chafwyd gwir ymgais i ledaenu'r system yn eang. Fodd bynnag, yn sgil yr Ail Ryfel Byd roedd gan Joseph Stalin gyfle i ail-lunio'r sefyllfa, ac fe wnaed hynny trwy ehangu'r cylch dylanwad dros nifer o wledydd dwyrain Ewrop. Mi fyddai'r 'bloc' Sofietaidd hwn yn datblygu system gomiwnyddol dros y blynyddoedd nesaf a oedd mewn gwrthwynebiad llwyr i'r system gyfalafol yng ngorllewin Ewrop a gogledd America.

Yn wir, dyma ddechrau'r 'Rhyfel Oer' – a gafodd ei enwi oherwydd y diffyg gwrthdaro gwaedlyd rhwng yr Undeb Sofietaidd a'r Unol Daleithiau. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i ddatblygu arfau niwclear a chanlyniadau trychinebus arfaethedig unrhyw wrthdaro milwrol. Fodd bynnag, realiti'r sefyllfa oedd **bod** y ddwy wladwriaeth yn brwydro, ond bod maes y gad mewn gwledydd eraill yn Affrica, De America ac Asia, ble roedd y ddwy ochr yn ceisio cefnogi, ariannu ac arfogi'r grwpiau hynny oedd yn driw i'w hideolegau.

Roedd gwleidyddiaeth ryngwladol yn ystod y degawdau wedi'r Ail Ryfel Byd felly i bob pwrpas yn rhyfel ideolegol rhwng Comiwnyddiaeth a Chyfalafiaeth. 'Enillwyd' y rhyfel hwnnw erbyn diwedd yr 80au pan ddechreuodd y Bloc Sofietaidd ymddatod, a fesul gwlad, rhoddwyd y gorau i'r system gomiwnyddol, gyda Rwsia'n gorffen y broses yn 1991. Ceir o leiaf ddau ganlyniad amlwg i'r broses hon – yn gyntaf, ystyrir cyfalafiaeth bellach fel yr unig system ddilys, a byddai'n rhaid i sosialaeth frwydro ar y sail honno, gan allu mynnu yn unig bolisiau a oedd yn ffrwyno'r farchnad. Economi cymysg oedd y gorau y gallai sosialwyr obeithio amdano bellach – gan eithrio esiampI Cuba. Yn ail, gyda goruchafiaeth cyfalafiaeth dechreuodd oes newydd ym myd gwleidyddiaeth ryngwladol ble roedd yr Americanwyr yn dominyddu, ac awgrymir gan rai, fel Francis Fukuyama yn ei lyfr *The End of History*, bod gwleidyddiaeth y byd yn symud at sefyllfa ble byddai gwledydd fesul un yn troi at ryddfrydiaeth ddemocrataidd.

Er gwaethaf methiant Comiwnyddiaeth, mae diddordeb mewn Marcsiaeth yn parhau, yn rhannol oherwydd y ddealltwriaeth bod nifer o agweddau ar ddatblygiad yr Undeb Sofietaidd nad oedd yn driw i'r weledigaeth wreiddiol. Yn hynny o beth, ac yn enwedig mewn oes ble mae'r economi byd-eang wedi wynebu argyfyngau pellach, mae dadansoddiad Marcsaidd o rai o'r problemau cyfoes yn parhau'n addas. Un o'r safbwyntiau hynny yw'r ddamcaniaeth a ddatblygwyd yn yr 1970au gan feddylwyr fel Immanuel Wallerstein, sef damcaniaeth dibyniaeth. Gan ddechrau â'r syniad o'r system ryngwladol fel un economi enfawr, honnir gan y meddylwyr hyn fod y system gyfalafol fyd-eang yn un sy'n gofyn am gadw rhai rhannau o'r byd mewn cyflwr o ddibyniaeth er mwyn galluogi i'r system gyfalafol weithio, a chynhyrchu elw i bobl mewn rhannau eraill o'r byd. Yn ôl y safbwynt hwn, mae gennym economi byd-eang sydd â chraidd a chyrion, gyda'r craidd metropolitan yn echdynnu adnoddau dynol a naturiol o'r cyrion er mwyn eu defnyddio a'u hecsploetio trwy brosesau cynhyrchu. Ar y llaw arall, nid oes gan y gwladwriaethau hynny ar y cyrion y profiad na'r gallu i wneud yn fawr o'u hadnoddau craidd, ac yn bwysicach na dim, nid oes modd iddynt sefydlu'r hyn sydd ei angen er mwyn creu elw a chystadlu ag eraill, sef diwydiannau cynhyrchu cydnerth.

8.2 Democratiaeth gymdeithasol

Tra bo Marcsiaeth, ac yn hynny o beth, rhyddfrydiaeth, wedi bod yn ddylanwadol iawn o safbwynt gwleidyddiaeth ryngwladol, ac yn arbennig o ran astudio'r maes, nid yw democratiaeth gymdeithasol wedi hawlio'r un sylw nac wedi bod yn sail i draddodiad cydnabyddedig cyffelyb. Un awgrym pam fod y diffyg hwn yn bodoli yw bod traddodiad o feddwl sydd, mewn gwirionedd, yn coleddu gwerthoedd democrataidd cymdeithasol ond sy'n cael eu cyflwyno yn enw traddodiad arall, sef rhyddfrydiaeth egalitariaidd. I bob pwrpas, dyma'r label Americanaidd ar yr un teulu o syniadau – un a ddefnyddiwyd yn rhannol oherwydd cysylltiad 'sosiolaeth' â'r hen elyn, sef Comiwnyddiaeth yr Undeb Sofietaidd, ac oherwydd cryfder y traddodiad rhyddfrydol a phwysigrwyd hawliau unigol yn eu hanes.

Un enghraifft o athronydd sy'n cyflwyno syniadau o'r fath yw Thomas Pogge (sy'n hanu o'r Almaen yn wreiddiol), ac yn wir, digon hawdd yw adnabod y dylanwad sosialaidd ar ei waith oherwydd ei ddyled i'r damcaniaethwyr dibyniaeth fel Wallerstein. Yn hynny o beth, mae Pogge'n rhoi pwyslais mawr ar rwystrau'r system economaidd fyd-eang ar ddatblygiad gwledydd yn y byd mwyafrifol (term cyfoes am gysyniad y trydydd byd) – gan ddadlau bod dyletswydd ar bobl yn y gorllewin i weithio tuag at ddiddymu'r strwythurau rheiny sydd, i bob pwrpas, yn parhau i ecploetio rhannau helaeth o'r byd. Ceir meddylwyr eraill yn y traddodiad hwn, er enghraifft yr Indiad Amartya Sen, sydd wedi ysgrifennu'n helaeth am yr angen i ddiwygio gwledydd y byd yn ôl egwyddorion democrataidd. Iddo ef, mae datblygiad economaidd a gwleidyddol gwledydd yn ddibynnol ar sicrhau rhyddid ehangach i unigolion, yn enwedig merched. Mae'r sawl sy'n dadlau dros 'gyfiawnder byd-eang' (wele hefyd yr adran ar ryddfrydiaeth) i bob pwrpas yn dadlau dros ymestyn egwyddorion democrataidd cymdeithasol i'r lefel ryngwladol, gan arddel aiddosbarthiad adnoddau, strwythurau economaidd tecach, ehangu hawliau a sicrhau cydraddoldeb pellach rhwng unigolion a phobloedd y byd.

O safbwynt ymarferol, mae modd adnabod enghreifftiau niferus i geisio hybu'r agenda hwn, yn arbennig ers yr Ail Ryfel Byd. Roedd y Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol, mewn ymateb i erchyllterau'r rhyfel hwnnw, yn fan cychwyn o safbwynt ceisio hybu cyfiawnder ledled y byd. Cyfraniad nodedig arall oedd Adroddiad Brandt yn 1980, sef ymchwiliad (o dan arweiniad cyn-Ganghellor Gorllewin yr Almaen, Willy Brandt) i'r anghydraddoldeb a nodweddai'r gymdeithas ryngwladol – a'r argymhellion a ddaeth yn ei sgil i aiddosbarthu cyfoeth rhwng gwledydd. Yn 2000 cynhaliwyd Uwchgynhadledd y Mileniwm, ac yn dilyn honno, lluniwyd wyth nod datblygu ar gyfer y gymdeithas ryngwladol, a oedd eto'n adlewyrchu gwerthoedd sosialaidd democrataidd fel gwaredu tlodi, hybu addysg, sicrhau cydraddoldeb, gwella iechyd, yn ogystal â gwarchod yr amgylchedd. Dilynwyd Amcanion Datblygu'r Mileniwm yn 2016 gan restr o 17 o Amcanion Datblygu Cynaliadwy, sy'n dangos dilyniant gyda'r amcanion gwreiddiol ond sy'n adlewyrchu'n ogystal yr angen dybryd am ymateb i'r argyfwng amgylcheddol.